# Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut

# Adroddiad Blynyddol 2016



**Rhisiart Arwel**

**Monitor Academaidd a Chadeirydd Cynllun Cymraeg Patagonia**

**CYNNWYS**


1) Gorolwg Tud.3

2) Targedau 2016 Tud.4

3) Llwyddiannau Allweddol Tud.5

4) Traweffaith y Cynllun/Ystadegau a Ffigurau Tud. 5 - 10

5) Datblygiadau Addysg Gynradd Ddwyiethog  Tud. 11 - 23

6) Y Gymraeg mewn Ysgolion Cyfrwng Sbaeneg Tud. 24 - 27

7) Menter Patagonia Tud. 28 - 43

8) Adroddiad y Cydlynydd Dysgu a'r Gydlynydd Gweinyddol Tud. 44 - 51

9) Astudiaethau Achos Tud. 52 - 62

10) Adroddiad Cynnydd ar Argymhellion 2015 Tud. 63 - 64

11) Argymhellion 2016 Tud 65




## GOROLWG

Mae Prosiect yr Iaith Gymraeg wedi bod yn hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn nhalaith Chubut, Patagonia, Yr Ariannin er 1997.
Yn flynyddol, mae tri Swyddog Datblygu Iaith o Gymru yn treulio cyfnod o naw mis - rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr - yn gweithio ym Mhatagonia. Maent yn datblygu'r iaith mewn cymunedau sy'n siarad Cymraeg drwy ddysgu ffurfiol mewn dosbarthiadau, yn nosbarthiadau'r tair ysgol ddwyieithog a thrwy weithgareddau cymdeithasol anffurfiol.

Mae Cydlynydd Dysgu parhaol o Gymru sy'n gyfrifol am ansawdd y dysgu hefyd wedi'i lleoli ym Mhatagonia.
Agwedd arall ar y prosiect yw rhwydwaith o diwtoriaid sy'n siarad Cymraeg sydd wedi'u lleoli yn y rhanbarth. Wrth ymweld â Chymru, mynychu cyrsiau Cymraeg a chymryd rhan mewn ymweliadau arsylwi ysgolion, rydym yn cynorthwyo i helpu i gynnal safonau addysgu a'r fethodoleg ddiweddaraf sydd ar waith ym Mhatagonia.

Rheolir y Cynllun gan Bwyllgor yr Iaith Gymraeg sy'n cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Cymru Ariannin, Menter Patagonia a Chymraeg i Oedolion, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.
Mae'r prosiect sy'n cynnwys ymweliadau cyfatebol, addysgu a hyfforddiant wedi ennill cydnabyddiaeth a llwyddiant yn rhyngwladol.

**Dull a maes llafur**
Rydym yn gweithio mewn tri dalgylch: yr Andes, Gaiman a Threlew. Mae'r Cynllun yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau o lefel dechreuwyr i gyrsiau gloywi i siaradwyr Cymraeg rhugl. Rydym yn cynnal y cyrsiau hyn yn y sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac oedolion.
Mae Swyddogion Datblygu'r Iaith Gymraeg yn addysgu amrywiaeth o gyrsiau gan gynnwys Blasu, Wlpan, Pellach, Uwch a Meistroli. Defnyddir cyrsiau a luniwyd gan Gymraeg i Oedolion, Prifysgol Caerdydd, wedi'u haddasu ar gyfer cyd-destunau Sbaeneg a Chymraeg.

**Cyllid**
Mae Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Cymru-Ariannin a British Council Cymru yn ariannu'r prosiect hwn, sy'n rhan o'r Rhaglen Addysg Ryngwladol. Mae llywodraeth Chubut a chyrff eraill yn darparu cyllid hefyd i gefnogi'r gwaith o ddysgu Cymraeg a'r gymuned Gymraeg ehangach.

**Hanes**

Y llynedd, dathlwyd 150 o flynyddoedd ers i'r ymsefydlwyr cyntaf o Gymru gyrraedd Patagonia.
Mae Cymru a Phatagonia wedi'u huno gan draddodiad, hanes ac iaith. Dechreuodd yr ymsefydlwyr parhaol gyrraedd Chubut a'r ardaloedd cyfagos ar 28 Gorffennaf, 1865.
Daeth oddeutu 153 o ymsefydlwyr o Gymru drosodd ar y Mimosa.

Bellach, ar ddechrau'r 21ain ganrif amcangyfrifir bod tua 50,000 o boblogaeth Patagonia o dras Gymreig.

# TARGEDAU 2016

1 Anfon 3 Swyddog Datblygu i addysgu a threfnu gweithgareddau cymdeithasoli iaith Menter Patagonia.

Yn y Dyffryn penodwyd un tiwtor a fyddai'n arbenigo mewn datblygu addysg feithrin a chynradd, ac apwyntiwyd yr ail diwtor i weithio gyda'r adegau ac oedolion. Yn yr Andes, penodwyd tiwtor i weithio gyda chyfnod cynradd ac arddegau.

2) Cyflogi un Cydlynydd Dysgu yn y Wladfa.

3) Cynorthwyo myfyrwyr o'r Wladfa i fynychu Cwrs yr Haf, Prifysgol Caerdydd

4) 1270 o ddysgwyr mewn gwersi Cymraeg

5) Gwella ar niferoedd dysgwyr yn y sector Meithrin a Chynradd (CA1 a CA2) a'r arddegau

**Gwireddwyd yr holl dargedau uchod**




**Margarita Jones gyda dosbarth oedolion yn Nhrevelin, yr Andes**

## LWYDDIANNAU ALLWEDDOL

1) Anfonwyd tri swyddog i Batagonia. Un i'r Andes, 75% dysgu a 25% gwaith Menter Patagonia.

Dau berson i'r Dyffryn, y ddau yn dysgu am 75% o'u hamser a threulio 25% yr un ar waith Menter Patagonia.

2) Cyfanswm o 1270 o bobl ar gyrsiau Cymraeg, sef y ffigwr uchaf yn hanes y Cynllun.
Mae hyn yn gynnydd o 4.1% eleni.

3) Twf yn niferoedd  Plant Cynradd (CA1) ( 202%) a'r Arddegau (14.5%)

4) Sefydlu Ysgol Y Cwm yn Nhrevelin yn yr Andes, mewn adeilad newydd sbon

5) Dathlu 10 mlynedd ers sefydlu Ysgol yr Hendre Trelew

6) Twf Ysgol Gymraeg y Gaiman

7) Cyfrannu at gynnal nifer fawr o ddigwyddiadau gan sefydliadau a grwpiau gwahanol e.e. Yr Urdd, Capeli'r Dyffryn a'r Andes

## TRAWEFFAITH Y CYNLLUN

### YSTADEGAU

1 Cydlynydd Dysgu – Clare Vaughan (yr Andes)

1 Cydlynydd Gweinyddol – Luned Gonzalez (Y Dyffryn)

3 o Athrawon/Swyddogion Menter Patagonia ( 2 yn y Dyffryn ac 1 yn yr Andes)

**Nia Jones** (yr Andes)  ( 75% addysgu a 25% Menter Patagonia)
**Eluned Jones** ( Y  Dyffryn ) ( 75% addysgu a 25% Menter Patagonia)
**Jessica Andrews** ( Y Dyffryn) ( 75% addysgu a 25% Menter Patagonia)

32 o athrawon/tiwtoriaid lleol

**Nifer y dosbarthiadau**

**91 (104) o ddosbarthiadau yn 2016**

| **Gaiman**<br>(gan gynnwys Dolavon)<br><br>**46** (52) | **Trelew**<br>(gan gynnwys Rawson, Porth Madryn a Comodoro)<br><br>**22** (25) | **Yr Andes**<br>(Trevelin ac Esquel<br><br>**23** (27) |
|---|---|---|

## Nifer y dysgwyr

| | Gaiman | Trelew | Yr Andes | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **2016** | **873** | **185** | **212** | **1270** |
| 2015 | 739 | 200 | 281 | *1220* |
| 2014 | 722 | 251 | 201 | 1174 |
| 2013 | 657 | 171 | 157 | 985 |
| 2012 | 607 | 145 | 225 | 977 |
| 2011 | 582 | 133 | 131 | 846 |
| 2010 | 527 | 85 | 150 | 762 |
| 2009 | 474 | 76 | 153 | 703 |
| 2008 | 378 | 97 | 112 | 587 |

**Niferoedd o ran haenau oedran y dalgylchoedd: *Niferoedd 2015 mewn cromfachau.***

| | Meithrin | Plant Cynradd (CA1) (Ôl feithrin) | Plant Cynradd (CA2) | Arddegau | Oedolion | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gaiman** | 60 (54) | 141 (46) | 224 (215) | 390 (333) | 58 (91) | **873** (739) |
| **Trelew** | 24 (8) | 69 (15) | 29 (77) | 0 (0) | 63 (100) | **185** (200) |
| **Yr Andes** | 44 (69) | 11 (12) | 84 (94) | 11 (17) | 62 (89) | **212** (281) |
| **Cyfanswm** | **128 (131)** | **221 (73)** | **337 (386)** | **401 (350)** | **183 (280)** | **1270** (1220) |

1270 yw'r cyfanswm mwyaf yn hanes y Cynllun.

Mae hyn yn gynnydd o 4.1% eleni a 29.9% ers dechrau'r cylch 3 blynedd ( 2012-2015). ( 977 o bobl yn 2012 ).

Roedd 573 yn dysgu yn 1997 sef blwyddyn swyddogol gyntaf y Cynllun, felly ers y flwyddyn honno, mae'r niferoedd wedi cynyddu gan 121.6%.

Mae'r cynnydd cyson yn ffigyrau'r Gaiman wedi'i gynnal a'i ymestyn yn rhannol oherwydd sefydlu Ysgol Gymraeg y Gaiman, cyfraniad ysgol uwchradd Coleg Camwy ynghyd â dosbarthiadau Cymraeg mewn tair ysgol arall cyfrwng Sbaeneg yn y Dyffryn.

Wrth iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 10 oed, mae llwyddiant Ysgol yr Hendre, Trelew yn cael ei adlewyrchu yn y cynnydd da yn ffigyrau Cynradd (CA1).

Yr Andes yw'r unig ddalgylch eleni i gynnig darpariaeth lawn o gyrsiau Oedolion o lefel Mynediad hyd at lefel Hyfedredd.

**Effaith llwyddiant Blwyddyn dathlu'r 150**
Adlewyrchwyd bwrlwm ac egni mawr dathliadau 2015 yng ngwaith y Cynllun. Cymaint oedd y diddordeb, fel y trefnwyd nifer o ddosbarthiadau oedolion ychwanegol gydol y flwyddyn, llawer ohonynt yn ddosbarthiadau Blasu, ar lefel Cyn-Fynediad. Sgil effaith hyn oedd codi niferoedd y dysgwyr, yn arbennig ymhlith yr oedolion.
Tasg anodd iawn oedd cynnal ac ail-adrodd y llwyddiant hwnnw eleni.
Tra bod cyfanswm nifer y dosbarthiadau wedi disgyn rhyw ychydig, y newyddion da yw bod cyfanswm y dysgwyr ar draws y sectorau wedi cynyddu.

**Niferoedd o ran lefelau iaith - Oedolion**

| | **Cyn-Fynediad (Blasu)** | **Mynediad (Wlpan 1)** | **Sylfaen (Wlpan 2)** | **Canolradd (Pellach)** | **Uwch a Meistroli** | **Hyfedredd (Gloywi)** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gaiman** | **0**<br>(42) | **29**<br>(8) | **9**<br>(15) | **8**<br>(3) | **0**<br>(2) | **12**<br>**(21)** | **58**<br>(91) |
| **Trelew** | **0**<br>(20) | **30**<br>(41) | **28**<br>(16) | **0**<br>(12) | **0**<br>(0) | **5**<br>(11) | **63**<br>(100) |
| **Yr Andes** | **0**<br>(29) | **29**<br>(13) | **8**<br>(14) | **8**<br>(16) | **7**<br>(10) | **10**<br>(7) | **62**<br>(89) |
| **Cyfanswm** | **0**<br>(91) | **88**<br>(62) | **45**<br>(45) | **16**<br>(31) | **7**<br>(12) | **27**<br>(39) | **183**<br>(280) |




**Un o ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion y Gaiman, gyda'i tiwtor, Siôn Dafis (canol y llun)**

Yn ystod 2015, gwelwyd y nifer uchaf erioed o ddysgwyr ymhlith yr Oedolion.
Mae sawl rheswm am y lleihad eleni.

Cynhaliwyd llai o ddosbarthiadau Blasu na'r llynedd.
Er i ddosbarthiadau cyn-fynediad y llynedd ddenu mwy o ddysgwyr i'r dosbarthiadau Mynediad eleni - fel y dengys ffigyrau lefel Mynediad (Wlpan 1) - ni chafodd hyn ddigon o ddylanwad llesol ar y cyfanswm. Y gobaith yw y bydd y cynnydd yma yn y lefel Mynediad eleni yn trosglwyddo i lefelau Sylfaen ac Uwch yn ystod y blynyddoedd nesaf.
Mae'r ffaith bod y Cynllun yn gallu denu cynifer o bobl ar ôl bron ugain mlynedd yn dangos yn glir bod y diddordeb ymhlith pobl Y Wladfa yn gryf iawn o hyd.

Er bod ychydig o leihad eleni dylid edrych ar hyn yng ngoleuni'r cynnydd sydd wedi ei wneud dros gyfnod o bum mlynedd ac wrth gwrs y ffaith mai dim ond 72 o oedolion oedd yn dysgu'r iaith yn ôl yn 2009.

2011 - 114
2012 - 137
2013 - 174
2014 - 268
2015 - 280

Gwelwyd mwy o bwyslais ar waith y sector cynradd ac uwchradd ar draws Chubut eleni.
Mae gallu cynnig cymorth ychwanegol i'r ddwy ysgol ddwyieithog newydd - Ysgol y Cwm, Trevelin ac Ysgol Gymraeg y Gaiman - ar yr union adeg maent yn cymryd eu camau cyntaf yn allweddol bwysig.

Plant yr ysgolion yw rhieni'r dyfodol. Wrth inni feithrin a'u cefnogi gyda'u haddysg cyfrwng Cymraeg, byddant yn fwy tebygol o anfon eu plant eu hunain trwy'r system addysg ddwyieithog yn y Wladfa. Dim ond trwy fuddsoddi yn y cenedlaethau nesaf yn awr y byddwn yn gallu gweld ffrwyth y llafur yn y blynyddoedd i ddod.
Bellach mae'r sector Cynradd (CA1 a CA2) yn cynrychioli 43.9% o ddysgwyr y Wladfa.

O ran cymhariaeth, ar ddechrau'r Cynllun yn 1997 roedd 279 o oedolion yn dysgu. Fodd bynnag rhaid cofio roedd y Cynllun 'swyddogol' newydd ddechrau ac oedolion oedd prif ffocws y gwaith a bron hanner ( 49% ) yr holl ddysgwyr.

Erbyn hyn, oedolion yw rhyw 14.4% o holl ddysgwyr Y Wladfa.




**Nia Jones, Swyddog Datblygu yr Andes, (ar ei thraed) gydag un o ddosbarthiadau Cymraeg Esquel**

**Oriau wythnosol yn ôl y dalgylchoedd**

| | Gaiman (yn cynnwys Dolavon) | Trelew (yn cynnwys Madryn, Rawson a Chomodoro) | Yr Andes (Esquel a Threvelin) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Meithrin (3 – 5 oed)** | **25 awr** | **17 awr 30 mun** | **36 awr** | **78 awr 30 mun** |
| **Ôl-feithrin (CA1)** | **15 awr 35 mun** | **32 awr 30 mun** | **7 awr** | **55 awr 05 mun** |
| **Plant cynradd (CA2)** | **55 awr 55 mun** | **60 awr 50 mun** | **7 awr 30 mun** | **124 awr 15 mun** |
| **Arddegau** | **25 awr 40 mun** | **0 awr** | **3 awr** | **28 awr 40 mun** |
| **Oedolion** | **13 awr 40 mun** | **16 awr** | **22 awr** | **51 awr 40 mun** |
| | **136 awr 15 mun** (92 awr 25 mun) | **126 awr 50 mun** (160 awr 40 mun) | **75 awr 30 mun** (70 awr 40 mun) | **338 awr 35 mun** (323 awr 45 mun) |

**Sylwadau**:

Mae cynnydd wedi bod yn y nifer yr oriau dysgu eto eleni. Fel y gwelir, mae nifer yr oriau Meithrin wedi codi'n sylweddol yn yr Andes oherwydd gwaith ychwanegol Ysgol y Cwm, Trevelin (3 grŵp Meithrin yn lle 1). Yn yr un modd, mae cynnydd yng ngwaith CA2 yn y Gaiman i'w briodoli'n rhannol i'r twf yn Ysgol Gymraeg y Gaiman, a dosbarth Cymraeg newydd (am dymor) yn Ysgol 100 y Gaiman gan Santiago Palacios Zampini.

Y newyddion da ydy bod gwaith y tair ysgol ddwyieithog yn mynd o nerth i nerth yn y Wladfa, ac mae eu llwyddiant yn destun balchder mawr.

Eleni eto, mae nifer o bobl ifanc gweithgar a brwdfrydig Chubut wedi gadael am y colegau a'r prifysgolion yng ngogledd yr Ariannin. Mae'r ffaith nad yw'r ieuenctid yma'n gallu bod yn bresennol yn y gweithgareddau, yn ogystal â'r ffaith nad oes digon o ieuenctid yn dod yn eu lle, yn cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad bach yng ngwaith yr arddegau ar draws y Dalaith eleni.

Fel y nodwyd eisoes, mae llawer o'r Cymunedau wedi penderfynu canolbwyntio ar ddatblygu'r ysgolion dwyieithog y flwyddyn hon. Tra bod hyn yn newyddion da iawn i'r sector Cynradd, mae wedi golygu gostyngiad yn oriau a niferoedd yr Oedolion yn gyffredinol, oherwydd does dim digon o adnoddau ar gael i wasanaethu'r holl sectorau'n gyflawn.

Tra bod Swyddogion Datblygu'r Cynllun yn sbarduno, cefnogi ac yn cyfrannu tuag at waith yr ysgolion a'r Cymunedau, nid yw cyllid y Cynllun yn ddigonol i ariannu'r holl oriau dysgu.

Mae'r ysgolion lleol - fel Ysgol yr Hendre yn Nhrelew - yn cyflogi athro o Gymru yn flynyddol ac yn ariannu prosiectau ac oriau eu hunain. Mae cynlluniau gan Ysgol Gymraeg y Gaiman hefyd i gyflogi athro/athrawes o Gymru yn 2017. Mae hyn yn newyddion ardderchog.

Rydym wedi gweld cynnydd cyson yn nifer yr oriau wythnosol dros gyfnod o bum mlynedd, sef 75 awr 35 munud neu bron 28.5% er 2011.

323 awr 45 munud yn 2015
301 awr 30 munud yn 2014
310 awr 40 munud yn 2013 ,
245 awr yn 2012
263 awr yn 2011



**Un o ddosbarthiadau Oedolion yng Nghanolfan Esquel gyda Grisel Roberts**

**YSGOL YR HENDRE, Trelew**

Mae Ysgol yr Hendre, Trelew yn ysgol ddwyieithog sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a Sbaeneg. Agorwyd y drysau yn 2006 ac eleni roedd yn dathlu ei deng mlwyddiant. Addysgir dosbarthiadau meithrin o 3 i 5 oed a dosbarthiadau cynradd o 6 i 12 oed.




**Rhan o ddathliadau penblwydd yr Ysgol yn 10 oed eleni**

Eleni mae gan Ysgol yr Hendre, Trelew 91 o ddisgyblion wedi eu rhannu fel a ganlyn:

| **Meithrin** | **Nifer** |
|---|---|
| Plant oed 3 | 8 |
| Plant oed 4 | 13 |
| Dosbarth derbyn | 6 |
| **Cyfanswm Meithrin** | **25** |

| **Cynradd** | **Nifer** |
|---|---|
| Blwyddyn 1 | 20 |
| Blwyddyn 2 | 14 |
| Blwyddyn 3 | 14 |
| Blwyddyn 4 | 9 |
| Blwyddyn 5 | 3 |
| Blwyddyn 6 | 6 |
| **Cyfanswm Cynradd** | **66** |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Ysgol yr Hendre** | **91** |

Bydd disgyblion blwyddyn 6 yn ein gadael ddiwedd y flwyddyn (2016) ac mae 12 o ddisgyblion newydd wedi eu cofrestru, hyd yn hyn, ar gyfer y flwyddyn nesaf gan ddod â'r cyfanswm i 97 o ddisgyblion ar gyfer y flwyddyn 2017.

**Trefn**

Rydym yn addysgu blwyddyn 1 a 2 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y bore a thrwy gyfrwng y Sbaeneg yn y prynhawn, a blwyddyn 3 - 6 drwy gyfrwng y Sbaeneg yn y bore a thrwy gyfrwng y Gymraeg yn y prynhawn. Mae angen un athro arbenigol ar bob dosbarth ar gyfer pob iaith ynghyd ag athrawon pwnc arbenigol e.e. cerddoriaeth, celf, addysg gorfforol yn Sbaeneg (statudol) a chôr, dawnsio gwerin, adrodd a gweithdy llenyddiaeth yn Gymraeg.

Rydym yn cyflogi athro o Gymru ers 2011, gan hysbysebu, talu cyflog, llety a thocyn i gyrraedd Trelew ein hunain.

Mae trefn y feithrinfa ychydig yn wahanol - ystyriwn fod y dosbarthiadau'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ond gan sicrhau bod y disgyblion yn medru'r un gweithgareddau yn Sbaeneg hefyd (eto, mae hyn yn statudol).

Romina a Mariel yw ein hathrawon a Norma ac Elmercita yw ein cynorthwywyr dosbarth. Yn ogystal â'r athrawon dosbarth rydym yn cyflogi pennaeth, ysgrifennydd a chydlynydd iaith ac mae athro Prosiect yr Iaith Gymraeg ym Mhatagonia'n cyfrannu dwy sesiwn 4 awr o'i wythnos gwaith i'r ysgol. Mae'r prosiect hefyd yn cyfrannu 20% o gyflog Norma Price.

Sefydlwyd yr ysgol ddeng mlynedd yn ôl ar ôl gweld ffrwyth llafur 9 mlynedd Prosiect yr iaith Gymraeg ym Mhatagonia a bellach mae tair ysgol gynradd Gymraeg ym Mhatagonia. Mae nifer o'n hathrawon wedi bod i Gymru i wella eu Cymraeg ac i arsylwi ar drefn addysgu yno, gan gynnwys Shirley James (fydd yn ymddeol y flwyddyn nesaf), Norma, Alcira a Romina.

Rydym yn gofyn i bob un o'n hathrawon ddysgu Cymraeg a dod yn gyfarwydd â'i sain a'i diwylliant, mae pawb yn cyfarch ei gilydd yn Gymraeg yn yr ysgol, ond amrywiol yw cyrhaeddiad y staff.

Dymunwn anfon tri athro arall i Gymru i wella eu Cymraeg ar frys: Edith, Mariel a Silvia. Mae angen mwy o athrawon arnom ni i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.



**Plant Blwyddyn 1 yr Hendre yn dawnsio dawns draddodiadol yr Ariannin yn ystod 'Diwrnod y Traddodiadau 2016'**

**Prosiect 'Perthyn'**

Cynhaliwyd prosiect Perthyn yn uno trefi Caernarfon a Threlew gan Cefyn Burgess, artist sy'n gweithio gyda gwlân. Lluniodd disgyblion Ysgol yr Hendre, Trelew ddelweddau sy'n cynrychioli eu hardal hwy yn Nyffryn Camwy a'u huno fel y ffermydd yn y dyffryn o amgylch yr Afon Camwy. Diolch i Cefyn am ei waith yn ysbrydoli'r plantos.




*Catrin Morris, Ysgol yr Hendre*



**Plant Ysgol yr Hendre yn ymarfer eu Cymraeg gyda rhai o siaradwyr Cymraeg Trelew**

**YSGOL GYMRAEG Y GAIMAN**




Yn gyntaf hoffem ddiolch i'r Cynllun Dysgu Cymraeg yn y Wladfa am bob cymorth yn ystod 2016 drwy law'r athrawon Cymraeg o Gymru. Mae presenoldeb yr athrawon yn ein hysgol bob blwyddyn yn hwb amhrisiadwy ac rydym yn mawr obeithio y bydd y cydweithio'n parhau ac yn cryfhau o flwyddyn i flwyddyn.

## Cefndir

Sefydlwyd Ysgol Feithrin y Gaiman yn 1993 fel ysgol feithrin Gymraeg ei hiaith a oedd yn cynnig 'gweithdai' Cymraeg answyddogol i blant bach. Yn 2013 derbyniodd yr ysgol statws ysgol feithrin gan lywodraeth y dalaith ac ers hynny yr ydym wedi medru darparu addysg swyddogol i blant 4 a 5 oed (oedran gorfodol i ddechrau mynychu ysgol yr Ariannin) ac i fabanod 1½-3 oed. Ers 2014 cawsom ganiatâd i ddarparu addysg gynradd ddwyieithog hefyd.

## Staff

Mae 19 o athrawon yn gweithio yn yr ysgol, sef yr athrawon dyddiol ac athrawon arbenigol (cerddoriaeth, ymarfer corff, coginio, dawnsio gwerin a chelf). O ganlyniad i dderbyn y statws swyddogol a nodwyd uchod, daeth yn orfodol cael athrawon meithrin a chynradd cymwysedig i ddysgu yn yr ysgol. Gan fod yr unig athrawes feithrin (gymwysedig) ddwyieithog oedd yn yr ysgol wedi mynd i Gymru (Judith Jones), bu'n rhaid inni felly benodi athrawon cymwysedig Sbaeneg i gydweithio ag athrawon datblygu'r Gymraeg ym mhob dosbarth.



**Eluned Jones, un o Swyddogion Datblygu'r Dyffryn eleni, gyda phlant Ysgol Gymraeg y Gaiman**

Dyma fanylion y dosbarthiadau a'r niferoedd yn 2016:

**Bore:**

| **Dosbarth** | **Nifer** | **Athrawon** |
|---|---|---|
| Babanod (1½ a 2 oed) | 19 | 2 |
| Dosbarth 3 oed | 16 | 2 |
| Dosbarth 4 oed | 12 | 2 |
| Dosbarth 5 oed | 11 | 1 (ac athrawes Gymraeg 2 fore'r wythnos |
| Blwyddyn 1 | 8 | Athrawes Sbaeneg |
| Blwyddyn 2 | 5 | Athrawes Sbaeneg |
| **Cyfanswm** | **71** | **9** |

(Cofier fod yr athrawon arbenigol yn cynnal eu gwersi drwy'r Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog yn y boreau).

**Prynhawn:**

| **Dosbarth** | **Nifer** | **Athrawon** |
|---|---|---|
| 5 oed | 11 | 1 athrawes Gymraeg |
| Blwyddyn 1 | 8 | 1 athrawes Gymraeg |
| Blwyddyn 2 | 5 | 1 athrawes Gymraeg |
| **Cyfanswm** | **(24)** | **3** |

Mae presenoldeb athrawon uniaith Sbaeneg y boreau yn cynnig her inni, ond yr ydym yn ffodus iawn o fod wedi cael athrawon cefnogol ac awyddus i ddysgu ychydig o Gymraeg i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac er mwyn annog y plant i ddefnyddio'r iaith. Mae Eluned Jones, un o Swyddogion Datblygu'r Cynllun eleni wedi gwneud gwaith gwerthfawr iawn yn dysgu'r athrawon di-Gymraeg a'r staff atodol (cegin, glanhau) ac mae hi wedi paratoi ffeil er mwyn sicrhau parhad y gwaith yn 2017. Braf fyddai meddwl y gallai rhai o'r athrawon ymroddedig hyn gael ysgoloriaeth i astudio ar gwrs dwys yng Nghymru (Wlpan) yn y dyfodol, gan mai prin iawn yw'r amser sydd ganddynt i astudio yma am eu bod yn gweithio mewn ysgolion eraill yn y prynhawniau ar ôl bod yn gweithio yn YGYG.

Dim ond addysg Gymraeg sy'n cael ei chynnig i'r tri dosbarth yn y prynhawn (5 oed, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2). Er mai dwy awr yn unig a gânt, mae'n rhyfeddol cystal y mae'r plant yn ymateb. Maent yn gwybod mai dim ond y Gymraeg y dylid ei siarad efo'r athrawon gan mai dim ond y Gymraeg a ddefnyddia'r athrawon gyda nhw. Rhaid cofio na ddaeth nifer o'r plant oedran cynradd i'r ysgol i gael eu haddysg feithrin ac felly maent wedi dysgu'r cyfan o'u Cymraeg ym mlwyddyn 1 a 2. Dengys hyn lwyddiant  trochi.



**Gwers natur yn Ysgol Gymraeg y Gaiman**

## Defnydd cyffredinol o'r Gymraeg

Ar wahân i'r gwersi eu hunain, yr ydym yn gweithio'n barhaus i gyflwyno'r Gymraeg yn weledol yn yr ysgol drwy osod posteri ac arwyddion a geirfa ar y waliau, e.e. mae gan nifer o'r dosbarthiadau arwyddion 'gair y dydd/wythnos' i ehangu geirfa; 'brawddeg yr wythnos' yn y neuadd i'r ysgol gyfan a.y.b. Mewn sefyllfaoedd anffurfiol rydym yn annog yr athrawon di-Gymraeg i ddefnyddio adnoddau Cymraeg yn unig (CDs, DVDs, gemau a llyfrau) ac i gyfarch a gostwng y faner, dweud newyddion a.y.b. yn y Gymraeg.

Yn yr un modd yr ydym yn credu ei bod yn hynod bwysig dangos presenoldeb mewn gweithgareddau lleol yn y gymdeithas, e.e. cymryd rhan mewn eisteddfodau a chyngherddau, gorymdeithio mewn 'actos' (defodau) swyddogol, cynnal stondinau yn y ffair lyfrau a'r ffair amaethyddol, anfon a derbyn gwahoddiadau i weithgareddau ar y cyd gydag ysgolion lleol eraill a.y.b., gan wneud yn siŵr fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n helaeth yn yr holl weithgareddau hyn.

**Hyfforddi staff**

Fel y crybwyllwyd eisoes mae'n hanfodol fod y gwaith da a wnaeth Eluned Jones i ddysgu Cymraeg i'r staff di-Gymraeg yn parhau. O ran datblygiad y staff Cymraeg eu hiaith presennol, credwn yn gryf y byddai derbyn hyfforddiant gan arbenigwyr mewn 'trochi' ieithyddol ac addysgu drwy ail-iaith yn fanteisiol iawn. Roeddem yn falch iawn o'r cysylltiad â wnaed yn gynharach eleni gyda Linda Davies o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, er nad ydym hyd yma wedi derbyn rhagor o fanylion am y cynllun diddorol hwnnw hyd yma. Yr ydym wedi prynu'r cynllun Tric a Chlic arloesol i'r ysgol hefyd. Byddai'n werthfawr derbyn hyfforddiant ar gyfer adnoddau penodol o'r fath hefyd.

Yr ydym ni, fel y ddwy ysgol ddwyieithog arall yn nhalaith Chubut, yn credu y byddai'n fuddiol iawn petai'r Cynllun Dysgu Cymraeg yn y Wladfa yn medru gyrru athrawon cynradd Cymraeg cymwysedig i weithio'n benodol yn ein hysgolion dwyieithog. Mae presenoldeb athrawon di-Sbaeneg yn hanfodol i lwyddiant ein hysgolion, fel y gwyddom o brofiad.

**Y Dyfodol - 2017:**

Mae'r arwyddion yn galonogol ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd. Dyma'r niferoedd sydd wedi cofrestru hyd yn hyn (ac mae'r gofrestr yn parhau ar agor):

| **Dosbarth** | **Niferoedd** |
|---|---|
| Babanod | 21 |
| 3 oed | 14 |
| 4 oed | 20 |
| 5 oed | 14 |
| Blwyddyn 1 | 9 |
| Blwyddyn 2 | 8 |
| Blwyddyn 3 | 5 |
| | |
| **Cyfanswm arfaethedig** | **91** |

Ein bwriad yn 2017 yw cyfuno'r dosbarth 4-5 oed fel 'dosbarth oed cymysg' ac yna gwahanu'n grwpiau rhwng y ddwy athrawes Sbaeneg a Chymraeg - h.y. gweithio ar wahân a chyfnewid grwpiau yn hytrach na gweithio yn y ddwy iaith ar yr un pryd. Hyderwn y bydd yr arbrawf hwn yn llwyddiant ac o fudd inni gynllunio yn y dyfodol.

Hefyd, yn 2017 bydd pynciau yn cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i Flwyddyn 3 yn y prynhawn (mathemateg, gwyddoniaeth, hanes…), yn hytrach na 'gwersi iaith' yn unig.

Fel y gwelwch felly, yr ydym yn parhau i weithio'n ddiflino i sicrhau parhad y Gymraeg yn y Gaiman ac yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Prydeinig, Cymdeithas Cymru-Ariannin, Llywodraeth Cymru a chyfeillion eraill am bob cefnogaeth i sicrhau ein bod yn llwyddo.

Yn gywir iawn,

*Rebeca White (Pennaeth Ysgol Gymraeg y Gaiman)*

*Esyllt Nest Roberts (Athrawes Gymraeg yn Ysgol Gymraeg y Gaiman)*



**YSGOL Y CWM, Trevelin**



**Seremoni'r baneri ar ddechrau diwrnod Ysgol y Cwm**

**<u>Ysgol y Cwm, Trevelin. Rhif: 1475</u>**

Prosiect i ddathlu'r Canmlwyddiant a Hanner ers cyrhaeddiad y Cymry cyntaf i'r Ariannin er mwyn sefydlu'r Wladfa ydy'r ysgol. Gwthiwyd y prosiect ymlaen gan y Gymdeithas Gymraeg yn Nhrevelin fel cofeb byw i'r rhai a deithiodd mor bell i gadw'r iaith a'r traddodiadau a byw mewn heddwch a rhyddid.

Dechreuwyd y gwaith llawer o flynyddoedd yn ôl mewn gwirionedd gyda dyfodiad y Cynllun Dysgu Cymraeg a grëwyd ym 1997, er mwyn rhoi hwb i iaith oedd yn prysur ddiflannu yn yr ardal. Wrth gwrs roedd rhai cyn hynny wedi bod yn dysgu mewn ffordd anffurfiol ond daeth y Cynllun â statws i'r prosiect ac athrawon o Gymru i gydweithio. Aeth o nerth i nerth. Y teimlad oedd bod llawer o'r rhai oedd wedi ennill ysgoloriaeth i deithio i Gymru er mwyn gwella eu Cymraeg wedi dod yn ôl i weithio gyda'r gymuned a'u bod nhw yn barod i chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddysgu plant.

Er 1997 roedd dosbarthiadau plant ac oedolion wedi cael eu cynnal yn yr hen Dŷ Capel o dan arweiniad tiwtoriaid o Gymru a thiwtoriaid lleol ond wrth ystyried bod popeth bryd hynny yn allgyrsiol, araf oedd y dysgu. Wrth edrych tuag at y Dyffryn a gweld llwyddiant Ysgol yr Hendre Trelew ac Ysgol Feithrin y Gaiman, y teimlad oedd bod y prosiect yn un fyddai rhieni lleol yn ei gefnogi.

Yn 2014, dechreuwyd gwerthu darnau o dir oedd yn perthyn i'r Gymdeithas Gymraeg a dechreuodd y prosiect o ddifrif. Erbyn Chwefror 2015 roedd y sylfeini yn eu lle a ninnau'n dangos y safle i ymwelwyr o Gymru. Erbyn Chwefror 2016 roedd rhai muriau i'w gweld a ninnau'n eu dangos i rieni oedd â diddordeb yn danfon eu plant at yr ysgol!

Er bod hanner yr adeilad dal heb ei orffen, agoron ni ein drysau ym mis Mawrth 2016. Buom yn gweithio o dan anawsterau fel sŵn a llwch yr adeiladwyr yr ochr draw i bared dros dro, diffyg system gwresogi a dim tŷ bach i'r athrawon! Gyda chymorth ffrindiau a gwaith di-stop y Gymdeithas, erbyn heddiw mae rhan gyntaf adeilad modern - sydd wedi cael ei gynllunio yn unswydd ar gyfer anghenion plant bach - yn barod ac yn gartref i 35 o blant rhwng 3 a 5 oed bob dydd yn ogystal â 6 dosbarth allgyrsiol plant ac oedolion sydd yn cwrdd yn yr adeilad hefyd.

Er bod nad oedd Llywodraeth Chubut wedi cydnabod yr ysgol yn swyddogol ar ddechrau'r flwyddyn, roedd y rhieni mor awyddus i'w plant gael addysg o'r fath, penderfynon nhw anfon eu plant beth bynnag, heb allu derbyn lwfans y teulu neu gael sicrwydd o dderbyn tystysgrif ysgol ar ddiwedd y flwyddyn.

Ysgol ddwyieithog Cymraeg-Sbaeneg ydy Ysgol y Cwm ond hyd yn hyn nid ydym wedi derbyn yr un ddimau o help gan Lywodraeth Chubut tuag at gostau dodrefnu'r ysgol na thalu cyflogau athrawon, er bod y Llywodraeth flaenorol wedi addo cyfrannu.



**Adeilad Newydd Ysgol y Cwm Trevelin**

**Agorodd yr Ysgol ei drysau am y tro cyntaf yn 2016**

Dyma staff 2016:

| **Cyfrifoldeb** | **Enw'r athrawes** | **Talu gan** |
|---|---|---|
| Prifathrawes Ysgol Feithrin | Erica Hammond | Ad honorem |
| Ysgrifenyddes | Margarita Jones | Ad honorem |
| Athrawes Plant 3 oed | Daniela Limache | Ysgol y Cwm |
| Athrawes Plant 4 oed | Jessica Hopkins | Ysgol y Cwm |
| Athrawes Plant 5 oed | Evangelina Davies | Ysgol y Cwm |
| Cynorthwydd Iaith 3 oed | Jesscia Jones | I fod i dderbyn 14 awr gan y Llywodraeth ond Ysgol y Cwm sy'n ei thalu ar hyn o bryd |
| Cynorthwydd Iaith  4 oed | Ximea Roberts | Ysl G |
| Cynorthwydd  Iaith 5 oed | Nia Jones | Cynllun Dysgu Cymraeg |
| Cydlynydd Iaith a Phedagog | Clare Vaughan | Wedi bod yn benthyg pnawn dydd Llun o Gynllun Dysgu Cymraeg |
| Athrawes Cerddoriaeth | Maria de Oro | Ysgol y Cwm |
| Athrawes Ymarfer Corff | Camila Gomez Itxassa | Ysgol y Cwm |
| Athrawes Dawnsio Gwerin | Jessica Jones | Ysgol y Cwm |
| Athrawes Coginio | Eluned Evans | Ysgol y Cwm |
| Glanheuwraig | Silvia Roa | Ysgol y Cwm |
| Athrawes y Delyn | Marilyn Jones | Ad honorem |

Mae'r ysgol yn talu'r cyflogau o'r ffioedd a delir gan y rhieni a gwaith y Gymdeithas - fel Mate Bingo, casglu arian mynediad i ddigwyddiadau lleol - er mwyn cadw 10% o werth y tocyn, raffl ayyb.

Ar hyn o bryd, mae'r plant Meithrin yn mynychu rhwng 13.50 tan 17.20  ddydd Llun i ddydd Gwener ac maen nhw'n gallu aros ymlaen i glwb Cymraeg dwywaith yr wythnos ar yr un amser a'r gweithdai allgyrsiol.

Yn ystod y pnawn, mae'r plant yn gweithio ar wahanol weithgareddau ac am 16.00 mae'r plant yn cael te,  sydd yn ffordd anffurfiol o ymarfer eu Cymraeg a hefyd yn ffordd o ddysgu arferion da fel golchi dwylo, eistedd yn llonydd, bwyta wrth y bwrdd a golchi llestri.  Ysgol y Cwm sydd yn talu am y byrbryd a hefyd am y deunyddiau i gadw'r ysgol yn lân.



Ar y lefel hon mae dysgu trwy chwarae yn bwysig iawn ac mae hyn wedi bod yn her heb lawer o ddeunyddiau parod, ond yn gyffredinol mae'r diwrnod ysgol fel hyn:

| **Dechrau 13.50** | **Dydd Llun** chwarae rhydd | Dydd **Mawrth** chwarae rhydd | **Dydd Mercher** chwarae rhydd | **Dydd Iau** chwarae rhydd | **Dydd Gwener** chwarae rhydd |
|---|---|---|---|---|---|
| 14.00 | Amser cylch Codi baneri Canu yn Gymraeg a Sbaeneg | Amser cylch Codi baneri Canu yn Gymraeg a Sbaeneg | Amser cylch Codi baneri Canu yn Gymraeg a Sbaeneg | Amser cylch Codi baneri Canu yn Gymraeg a Sbaeneg | Amser cylch Codi baneri Canu yn Gymraeg a Sbaeneg |
| 14.20 | Cofrestru | Cofrestru | Cofrestru | Cofrestru | Cofrestru |
| 14.50 | Gweithgaredd | Gweithgaredd | Celf | Cerddoriaeth | Gweithgaredd |
| 15.30 | Gweithgaredd | Gweithgaredd | Gweithgaredd | Ymarfer Corff | Gweithgaredd |
| 16.10 | Amser te | Amser te | Amser te | Amser te | Amser te |
| 16.30 – 17.20 | Coginio ffarwel | Dawsio gwerin Ffarwel | Gweithgaredd Ffarwel | Gweithgaredd Ffarwel | Gweithgaredd Ffarwel |

Y syniad ydy bod y ddwy iaith yn cyd-fyw yn naturiol ond bod yr athrawon sydd yn gallu siarad Cymraeg yn siarad yr iaith yn gyson gyda'r plant, nid yn unig yn ystod y sesiynau gwaith iaith. Os ydy'r cyfarch yn yr amser cylch yn Gymraeg efallai bydd y cofrestru yn Sbaeneg, os fydd y cofrestru yn Gymraeg bydd y ffarwelio yn Sbaeneg ond mae'r gweithdai coginio, dawnsio gwerin, celf a miwsig drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â defnydd o'r Gymraeg amser te ac ar achlysuron eraill yn ystod y diwrnod ysgol.

Mae'r ysgol wedi bod yn bresennol ym mhob dathliad yn y dref e.e. Eisteddfod Trevelin, Cyngerdd Pleidlais 30 Ebrill, Gŵyl y Glaniad, Eisteddfod Ysgol Puerto del Sol, Ffair Lyfrau , Diwrnod Cerddoriaeth, Cyngerdd a gorymdaith 25 Tachwedd yn ogystal â dathlu diwrnodau pwysig yn hanes y wlad a Chymru fel 25 Mai, 9 Gorffennaf, Diwrnod 'Shw mae Sut mae?', diwedd y flwyddyn a chyngerdd Nadolig.

Sut gawn ni fesur llwyddiant yr ysgol hyd yn hyn? Dyma rai o'r ffeithiau sydd yn profi ein bod ni wedi dechrau gwaith pwysig iawn :

- Bydd y grŵp cyntaf o blant yn gadael addysg Meithrin er mwyn dechrau ym Mlwyddyn 1 ym mis Chwefror 2017 er bod ein rhif terfynol fel ysgol swyddogol o dan reolau'r Llywodraeth ddim wedi cyrraedd eto. Mae hynny'n dangos hyder y rhieni yn yr addysg ddwyieithog rydym yn ei chynnig ac yn barod i gymryd yr un risgiau a'r llynedd, sef colli lwfans teulu am y plant ac yn y blaen.
- Mae Llywodraeth Chubut wedi cydnabod pwysigrwydd dysgu iaith gan iddyn nhw gydnabod ein gwaith trwy roi'r rhif i ni.
- Mae prosiect gwaith cynradd wedi cael ei dderbyn gan y llywodraeth o dan rif 5386/16
- Mae galw am le yn yr ysgol yn fwy na'r llefydd sydd ar gael: 50 o blant Meithrin a blwyddyn 1, 15. Mewn blwyddyn, byddwn ni wedi dyblu nifer y disgyblion.
- Mae'r athrawon yn hapus iawn gyda datblygiad y plant yn y ddwy iaith ac yn gweld eu bod nhw wedi gwneud cynnydd yn ystod y flwyddyn yn ôl eu hoedran a'u gallu.

- Mae ymateb cadarnhaol gan y rhieni, a’r cadarnhad eu bod yn awyddus i fod yn rhan o deulu’r ysgol trwy gymryd rhan yn holl weithgareddau’r ysgol.
- Mae'r rhieni yn gweld bod gwerthoedd y Cymry cyntaf yn cael eu trosglwyddo i’r genhedlaeth nesaf.
- Parodrwydd y plant i gymryd rhan yn yr Eisteddfodau a sefyll o flaen cynulleidfa i adrodd a chanu yn Gymraeg a Sbaeneg yn unigol ac mewn grŵp.

Yn amlwg, i barhau gyda’r un gwaith yn ystod 2017, rydym angen mwy o athrawon a mwy o gyllid. Y flwyddyn nesaf byddwn ni’n gweithio yn y bore gyda blwyddyn 1 ac yn y prynhawn gyda’r Feithrin. Byddai cael athro neu athrawes Cymraeg llawn amser yn yr ysgol yn Nhrevelin yn ddelfrydol. Rydym angen ymestyn gwaith y cynorthwywr iaith, rydym angen cydlynydd iaith llawn amser, rydym angen hyfforddi athrawon cynradd yr Ariannin i fod yn athrawon dwyieithog a mwy o hyfforddiant methodoleg plant bach i’r cynorthwywyr iaith.

*Margarita Green, Ysgol y Cwm (gyda chymorth Clare Vaughan)*



**Jessica Jones gyda’r grŵp 3 oed yn Ysgol y Cwm**

**YSGOL UWCHRADD – COLEG CAMWY, Y GAIMAN**



**Gwaith grŵp mewn gwers Gymraeg yng Ngholeg Camwy**

Agorodd Ysgol Uwchradd Camwy ei drysau yn 1963 yn dilyn y cwricwlwm cenedlaethol dan nawdd Cymdeithas Addysg a Diwylliant y Wladfa a fu'n gyfrifol am yr Ysgol Ganolradd rhwng 1906 a 1951.

Nid oedd y Gymraeg yn gynwysedig yn y cwricwlwm hwnnw. Ddechrau'r nawdegau cafodd amryw o fechgyn ifanc y Gaiman y cyfle i fynychu cwrs dwys Llanbed. Wedi dychwelyd, cynigiodd un ohonynt roi gwersi Cymraeg yn yr ysgol. Cytunodd yr awdurdodau ac mae'r gwersi yn dal mewn grym.

Erbyn hyn, mae dwy wers yr wythnos (40 munud yr un) yn cael eu cynnig i Flwyddyn 1 (7), B.2 (8) a B.3 (9): cyfanswm o 141 o blant. Mae'r gwersi dan ofal Caren Jones a Gabriel Restucha, y ddau wedi cael hyfforddiant yng Nghymru diolch i Gynllun yr Iaith Gymraeg. Lefel dechreuwyr ydy'r cyrsiau hyn.

Gwelwyd yn 2015 bod angen gwella'r drefn gan fod ambell blentyn yn mynychu'r ysgol a gwybodaeth o'r Gymraeg ganddynt eisoes - plant sydd wedi mynychu ysgol ddwyieithog neu sy'n clywed y Gymraeg yn y cartref. Erbyn hyn mae Esyllt Nest Roberts yn dysgu'r plant hynny.

Mae disgyblion blynyddoedd 4, 5 a 6 (sef 10,11 a 12) yn cael cynnig dwy wers yr wythnos (awr yr un) yn gynnar y pnawn. 63 o ddisgyblion sydd yn dewis y cynnig yma, mae'r lleill yn mynychu dosbarthiadau Ffrangeg. Gabriel Restucha sy'n gofalu am y gwersi Cymraeg hynny.

Telir yr oriau dysgu Cymraeg gan gyfraniad ariannol Llywodraeth Talaith Chubut fel prosiect arbennig.

Yn ogystal â chael gwersi yn wythnosol, ysgogir y disgyblion i gymryd rhan yng ngweithgareddau Menter Patagonia, ymweld ag Ysgol Gymraeg y Gaiman, croesawu ymwelwyr o Gymru, trefnu gweithgareddau gyda chriw'r Urdd, ymweld â mynwent y Gaiman i ddarllen beddargraffiadau Cymraeg, ymweld â llefydd hanesyddol yn ymwneud â hanes y Wladfa, cystadlu yn yr eisteddfodau, trefnu eisteddfod yr ysgol, helpu yn seremoni flynyddol yr Orsedd ym Maes yr Hen Wladfawyr, trefnu stondin yn y ffair lyfrau a.y.b.

Y gobaith ydy trefnu taith i Gymru i rai o´r disgyblion yn y dyfodol. Mae’n anodd gwireddu hyn oherwydd sefyllfa ansefydlog ein heconomi. Buasai’n ddelfrydol hefyd cynnig amser yng nghanolfannau’r Urdd yng Nghymru i ymarfer yr iaith a chael profiad gwaith. Wedi’r cyfan, erbyn hyn mae dwsinau o aelodau’r Urdd wedi cael y profiad bythgofiadwy o ymweld â’r Wladfa. Braf yw meddwl efallai y gallai Cymru groesawu criw bach o Wladfawyr ifanc rhyw ddydd hefyd?

Mae Saskia Eleystein, disgybl o flwyddyn 5 wedi ennill ysgoloriaeth Tom Gravell i fynychu Coleg Llanymddyfri am dri mis ddechrau’r flwyddyn 2017. Mae nifer o’n cyn-ddisgyblion wedi cael y profiad gwerthfawr hwnnw yn y gorffennol.

Eleni llwyddodd dwy o’n disgyblion yn yr arholiadau Sylfaen CBAC ar ôl cael eu paratoi yn yr ysgol. Pasiodd Mercedes Mezza White a llwyddodd Rocio Fernandez gyda Rhagoriaeth. Hyderwn y bydd hyn yn dod yn arferiad blynyddol o hyn ymlaen.



**Gabriel Restucha yn rhoi gwers Gymraeg i ddisgyblion blwyddyn 4 Coleg Camwy**

**NIFEROEDD Cymraeg yng Ngholeg Camwy**

| | | |
|---|---|---|
| Blwyddyn I (7) A - 23 | Blwyddyn I (7) - 18 | Caren Jones |
| Blwyddyn I (7) B - 6 | Esyllt Roberts | |
| Blwyddyn II (8) A - 19 | Blwyddyn II (7) - 23 | Gabriel Restucha |
| Blwyddyn II (8) A - 3 | Esyllt Roberts | |
| Blwyddyn III (9) A - 20 | Blwyddyn II (8) - 24 | Gabriel Restucha |
| Blwyddyn III (9) - 2 | Esyllt Roberts | |
| Blwyddyn IV (10) - 31 | (Ffrangeg 19) | Gabriel Restucha |
| Blwyddyn V (11) - 16 | (Ffrangeg 23) | Gabriel Restucha |
| Blwyddyn VI (12) - 16 | (Ffrangeg 20) | Gabriel Restucha |



**Esyllt Roberts gyda rhai o ddisgyblion Coleg Camwy mewn gwers Gymraeg estynedig**

*Luned Gonzalez, y Gaiman*

**YSGOL UWCHRADD ALIWEN**

Sefydlwyd ysgol uwchradd Aliwen yn 2005 fel ysgol yn cynnig addysg uwchradd alwedigaethol i bobol ifanc yr ardal. Mae'r ysgol mewn adeilad benthyg ger y Gaiman. Gan fod "twristiaeth" o fewn y cwricwlwm, penderfynwyd cynnig gwersi Cymraeg ym mlynyddoedd 1, 2 a 3 fel rhan o´r cwrs. Caren Jones, Santiago Palacios Zampini a Gabriel Restucha sydd yn gyfrifol am y ddwy wers wythnosol o 40 munud sydd yn cael eu cynnig. Cyfanswm o 175 disgybl mewn chwe dosbarth. Mae'r athrawon yn cael eu talu gan gyfraniad ariannol Llywodraeth y Dalaith.

NIFEROEDD YSGOL UWCHRADD ALIWEN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn I (7) A - 36 | Caren Jones | Blwyddyn I (7) B - 34 | Caren Jones |
| Blwyddyn II (8) A - 33 | Santiago Palacios Z. | Blwyddyn II (8) B - 30 | Gabriel Restucha |
| Blwyddyn III (9) A- 19 | Gabriel Restucha | Blwyddyn III (9) B - 23 | Gabriel Restucha |

*Luned Gonzalez, y Gaiman*

**YSGOL BRYN GWYN**



**Damaris Vásquez (ar y dde) yn rhoi gwers Gymraeg yn Ysgol (Sbaeneg) Bryn Gwyn**

**Ar y chwith, Jessica Andrews, un o Swyddogion Datblygu'r Dyffryn eleni**

Menter PATAGONIA

Aethpwyd ati yn 2009 i osod amcanion Menter Patagonia sef:

Rhaid wrth ymdrechion gwirioneddol i normaleiddio defnydd o'r iaith mewn trawstoriad o sefyllfaoedd cymdeithasol - ymestyn ei defnydd cymdeithasol.

Dylid anelu at gynnal amrywiaeth eang o sefyllfaoedd, achlysuron a gweithgareddau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg - rhwng 10 a 13 awr yr wythnos ym mhob lleoliad - rhwng 20 ac 26 awr yr wythnos o weithgareddau yn Nyffryn Camwy a chyfanswm cyfatebol yng Ngodre'r Andes. Gellid awgrymu gweithgareddau fel a ganlyn:

> Gweithgarwch ar gyfer plant meithrin a'u rhieni. Gallai hyn fod yn gyfle i ennyn diddordeb yn y rhieni a'u cael i ddosbarth Cymraeg - o leiaf un sesiwn yr wythnos.
>
> Gweithgareddau ar gyfer plant cynradd - chwaraeon, crefftau, peintio a gwaith llaw, gemau, natur a'r amgylchedd, dawnsio gwerin, grŵp canu/ actio, grwpiau chwarae fore Sadwrn, clybiau gwyliau, hobïau ac ati.( dwy haen oedran yn cyfarfod ddwywaith yr wythnos)
>
> Gweithgareddau ar gyfer plant oedran ysgol eilradd - Aelwyd yr Urdd, chwaraeon, gweithgareddau awyr agored, gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau cymdeithasol. (dwy sesiwn yr wythnos os yn bosibl).
>
> Gweithgareddau cymdeithasol rheolaidd ar gyfer oedolion - cwis, sioe ffasiwn, coginio, blasu gwahanol fathau o fwyd, grwpiau trafod neu ddadlau, grwpiau sgwrsio, grwpiau gwahanol hobïau, gwersi cyfrifiaduron ar gyfer dechreuwyr, clybiau cerdded, seiclo, mynydda, sgïo, clwb cinio, nosweithiau llawen, sgyrsiau a darlithoedd, dawnsio gwerin, picnic, gwibdeithiau, nosweithiau ffilmiau ac ati.
>
> Gweithio'n glos â mudiadau lleol Cymreig i'w hysbrydoli - megis yr eisteddfod, cyrddau cystadleuol, y capeli.
>
> Ceisio ymestyn defnydd gweledol o'r Gymraeg yn lleol. - y radio, yr amgueddfeydd ac ati.

Mae cyllid gan y Cynllun i ran-gyflogi person ar gyfer gweithgareddau Menter Patagonia. Felly er mwyn sicrhau rhywfaint o bresenoldeb gan y Fenter, tri chwarter swydd ( 0.75) sydd rhwng y ddau ddalgylch mewn gwirionedd.

Treuliwyd 25% o amser Eluned Jones a Jessica Andrews ar waith y Fenter yn y Dyffryn a 25% o amser Nia Jones yn yr Andes.

**Digwyddiadau Menter Patagonia, Yr Andes, 2016 – Nia Jones, Swyddog Datblygu'r Andes**

| Dyddiad | Lleoliad | Digwyddiad | Nifer | |
|---|---|---|---|---|
| 24.03.16 | Esquel, Y Ganolfan | Cinio cawl wedi cwrs hyfforddi Haydn Hughes | 10 |  |
| 15.05.16 | Esquel, Y Ganolfan | Pnawn sinema i wylio rhaglen gyntaf y gyfres Y Gwyll | 8 |  |
| 30.06.16 | Esquel, Y Ganolfan | Cwis a swper cyri | 20 |   |
| 1.07.16 | Trevelin, Ysgol Y Cwm | Twmpath Dawns | 25 |  |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 28.07.16 | Trevelin, Bwyty Dona Maria, | Eisteddfod ddwl wedi swper y Gymdeithas Gymraeg i ddathlu Gŵyl y Glaniad | 60 |   |
| 12.08.16 | Trevelin, Ysgol Y Cwm | Cwis a swper cawl | 20 |    |
| 30.09.16 | Esquel, Y Ganolfan | Noson ddawns a swper | 20 | Lluniau gyda Rhisiart Arwel   |
| 01.10.16 | Trevelin, Ysgol Y Cwm | Noson Lawen | 20 |   |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 21.10.16 | Trevelin, Gwesty La Estancia | Noson o sgwrsio i´r ifanc yng nghwmni criw yr Urdd | 8 |  |
| 22.10.16 | Trevlin ac Esquel, cartrefi unigolion | Criw yr Urdd yn ymweld â chartrefi saiardwyr Cymraeg lleol. | 25 |  |
| 22.10.16 | Esquel, Y Ganolfan | Cyngerdd a swper yng nghwmni criw yr Urdd | 30 |  |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 24.10.16 | Trevelin, Ysgol Y Cwm | Cyngerdd yng ngwmni criw yr Urdd | 20 |   |
| 03.11.16 | Esquel, Y Ganolfan | Prynhawn yng nghwmni bardd buddugol Eisteddfod y Wladfa. | 15 |  |
| | | | | |
| | | | | |




**Staff Taith yr Urdd 2016**

**Llais yr Andes.**

Dyma Bapur Bro sy'n cael ei gynhyrchu'n rheolaidd fel rhan o waith MENTER PATAGONIA yn ardal yr Andes. Mae'n cael ei gynhyrchu mewn lliw, o safon uchel.

Nia Jones, Swyddog Datblygu'r Andes sy'n gyfrifol am ddylunio, olygu a chasglu'r deunydd ynghyd. Mae'n cael ei ddarllen yn awchus yn y Wladfa, fel yng Nghymru ac mae'n ffordd lwyddiannus iawn i ledaenu newyddion a straeon am yr Andes ymhlith y brodorion ynghyd â charedigion a chyfeillion Patagonia ar draws y byd.

Mae Llais yr Andes hefyd yn cyhoeddi fideos ar **Youtube Llais Yr Andes** ac ar Twitter **@LlaisyrAndes**

# LLAIS YR ANDES

Mai 2016 #30

## YSGOL Y CWM YN AGOR EI DRYSAU





**Heb amheuaeth,** un o uchafbwyntiau cymuned Gymreig yr Andes eleni yw agoriad ysgol ddwyieithog newydd yn Nhrevelin. Wedi blynyddoedd o gynllunio a threfnu, gwireddwyd breuddwyd cymuned Gymraeg Trevelin gydag agoriad yr ysgol newydd

Daeth plant, athrawon, rhieni a chefnogwyr at ei gilydd ddydd Mercher y nawfed o Fawrth i weld yr adeilad newydd. Cafwyd cyfle i gyfarfod yr athrawon newydd a´r disgyblion newydd. Daeth criw ffilmio o´r orsaf deledu leol, a hefyd daeth unigolion o´r gorsafoedd radio lleol a gohebwyr papurau newydd. Siaradodd y brifathrawes Erica Hammond am fanteision addysg ddwyieithog gan bwysleisio bod yr ysgol ar agor i holl drigolion y gymuned, nid yn unig y sawl sydd o dras Gymreig.

Ond pam ysgol ddwyieithog? Er mwyn derbyn cefnogaeth gan y llywodraeth, roedd yn rhaid i´r ysgol fod yn ddwyieithog yn hytrach nag uniaith Gymraeg. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod yr ysgol ar agor i bawb o gymuned Trevelin yn hytrach nag i rieni sy´n medru talu i'w plant i fynd i ysgol breifat yn unig.

Wedi penderfynu mai trosglwyddo´r iaith Gymraeg i´r genhedlaeth nesaf oedd yr unig ffordd o gadw´r iaith yn fyw yn yr Andes, ac hynny drwy agor ysgol newydd i´r gymuned gyfan, bu rhaid codi´r arian i ddechrau´r gwaith adeiladu. Gwerthwyd rhannau o waddol y sefydlwyr cyntaf, sef plotiau o dir o gwmpas ardal Capel Bethel, Trevelin, ac aethpwyd ati i ddechrau codi´r adeilad newydd.

Ond er holl ymroddiad a gwaith caled gan gefnogwyr yr ysgol, rhaid oedd goresgyn sawl her.





# EISTEDDFODAU

## TREVELIN













Roedd Eisteddfod Trevelin yn lwyddiant mawr gyda Vilma Nanci Jones a Iestyn Tyne (o Gymru) yn cipio´r prif wobrau.

DIOLCH I DANIEL HUGHES A MARCELO ROBERTS AM Y LLUNIAU.

## YSGOL PUERTA DEL SOL



Cafwyd cyfle gwych arall i bawb i ymarfer eu sgiliau perfformio yn Eisteddfod Ysgol Puerta Del Sol, Trevelin. Daet h sawl un o Ysgol Gymraeg Yr Andes, Esquel i gystadlu ac i fwynhau diwrnod ymysg siaradwyr Cymraeg ifanc eraill.



## EISTEDDFOD Y BOBL IFANC

Mae criw o bobl ifanc o´r Andes ar hyn o bryd yn Y Gaiman yn cystadlu yn Eisteddfod Y Bobl Ifanc. Mae Hevin, Iriel, Milagros, Bennett, Fran, Nahiara, Dianne, Karin, Cristian a Marisol yn dawnsio dan arweiniad Jessica Jones ac hefyd yn adrodd yn unigol ac yn cydadrodd. Pob hwyl iddyn nhw a diolch i bawb fu´n brysur yn gwneud y trefniadau i sicrhau eu bod nhw´n gallu teithio draw.



**POB LWC I BAWB FYDD YN CYSTADLU YN EISTEDDFOD Y WLADFA.**

**Adroddiad Menter Patagonia 2016 y Dyffryn – Eluned Jones**




Cyflwynaf grynodeb o'r prif weithgareddau roeddwn yn rhan ohonynt eleni ac yn wir drwy hynny yn defnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng amlwg. Rhaid i bawb sylweddoli bod llawer mwy o ddigwyddiadau ychwanegol yn cael eu trefnu yma yn Nyffryn Camwy gan Gymdeithas Dewi Sant, yr Ysgol Gerdd, Y Ganolfan Ddiwylliant, Ysgolion, Capeli a nifer o sefydliadau eraill. Diolch i bawb am ddangos brwdfrydedd parhaol a gofalu fod cymaint o weithgareddau amrywiol.

Cychwynnwyd y flwyddyn addysgol ar Fawrth y Cyntaf. Bûm ymysg dathliadau Gŵyl ein Nawddsant a hynny mewn awyrgylch Gymreig Ysgol yr Hendre Trelew yn ystod y dydd ac yna mewn Noson Lawen hwylus yn yr Hen Gapel Bethel Gaiman . Noson safonol, gymdeithasol a chawsom adloniant gwefreiddiol. Cyflwynwyd arian gan Gwmni Tinopolis i'w rannu rhwng Ysgol Y Cwm Trevelin, Ysgol yr Hendre Trelew ac Ysgol Gymraeg y Gaiman. Diolchwyd i Emyr Penlan ac i Elin Fflur am sicrhau ein bod wedi cael rhodd hael yn dilyn eu sesiwn ffilmio ar gyfer y rhaglen ''Heno''yn ystod dathliadau 150 y Wladfa. Bu'n noson i ddymuno'n dda i Judith Jones cyn iddi ymadael am Gymru ac i groesawu'r athrawon a'r tiwtoriaid.

**Cymanfaoedd Canu - Cymdeithas Dewi Sant.**
Yn fisol cynhelir Cymanfa Ganu. Dyma restr o'r Cymanfaoedd rwyf wedi mynychu eleni:

5. 3. 2016 - Capel Nazareth, Drofa Dulog.
16.4.2016 - Eglwys San David, Maesteg.
21.5.20 - Capel Ebenezer, Dolavon.
11. 6. 2016 - Capel Bethesda.
*Gohiriwyd Cymanfa Ganu Glan Alaw 16.7.2016 oherwydd y tywydd*.
20. 8. 2016 - Capel Seion, Bryn Gwyn.
11. 9. 2016 - Cymanfa Ganu Eisteddfod yr Ifanc yng Nghapel Bethel Gaiman.
15.10. 2016 - Capel Bryn Crwn.
30.10.2016 Cymanfa Ganu Eisteddfod y Wladfa yng Nghapel Tabernacl Trelew.
19.11.2016 Capel Salem Lle Cul.

Rwy'n teimlo ei fod yn wirioneddol bwysig i'r swyddog datblygu gefnogi'r Cymanfaoedd Canu. Rydym i weithio'n agos gyda mudiadau lleol a thrwy hynny yn creu ymwybyddiaeth o'n gwaith yn ogystal cawn y cyfle i werthfawrogi cyfraniad pobl yn y gymuned.

**Gwasanaethau Cymraeg ar y Sul.**

**Capel Bethel y Gaiman.**
Diolchwn i aelodau Capel Bethel Gaiman am sicrhau fod oedfa Gymraeg yn fisol. Rhaid datgan balchder o gael bod ymhlith a chymryd rhan y gwasanaethau. Mae'n dda gweld cymaint o Ieuenctid yn mynychu a chymryd rhan yn fisol.

Dyma restr o'r gwasanaethau a fynychais eleni.

3. 4. 2016 - Diolch am y Cynhaeaf - Gwasanaethwyd gan Y Parchedig Tegid a Nant Roberts.
15. 5. 2016 - Thema '' Duw Llawenydd '' Gladys Thomas yn datgan y neges.
26. 6. 2016 - Thema '' Duw Ffyddlondeb ''Cymrodd Manon ac Elin Arfon, Myfyrwyr Ysgoloriaeth Santander o Brifysgol Caerdydd at y rhannau arweiniol.
28. 7. 2016 - Gwasanaeth Gŵyl y Glaniad.
28. 8. 2016 - Gwasanaeth i dalu teyrnged a chofio am John Caerenig Evans a'i briod Hannah a fu'n gwasanaethu yma yn 1874.
13. 11. 2016 - Gwasanaeth a drefnwyd gan Glenda Thomas. Neges a ddanfonodd Judith Jones o Gymru i'w rhannu.
11. 12. 22016 - Gwasanaeth Nadolig y Dosbarthiadau Cymraeg.

**Capel Glan Alaw.**
Trefnais dair **oedfa yng Nghapel Glan Alaw** yn ystod y flwyddyn. Bu'n hyfryd ymuno gyda'r ffyddloniaid Eleri Jones ac Aldwyn Brunt sy'n awyddus iawn i gynnal Gwasanaeth Cymraeg yn achlysurol. Mynegodd Eleri sy'n aelod o Ddosbarth Siaradwyr Dolavon ei bod yn hapus iawn i weld y gwasanaethau yn dal i gael eu cynnal yng Nglan Alaw yn yr Iaith wreiddiol y codwyd y Capel arbennig hwn i ddechrau. Diolch i Ivonne Owen ac i Gladys Thomas am baratoi negeseuon urddasol. Diolch i bawb o'r ardal am gymryd rhan a chefnogi

19.3.2016 - **Cinio Blynyddol Cymdeithas Dewi Sant** yn Ysgol Rhif 61 Abraham Mathews Bryn Gwyn. Cawsom gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfarfod cyfeillion newydd. Cafodd Arie Lloyd de Lewis ac Orlando o Drofa Dulog eu hanrhydeddu am eu gwaith diflino dros y blynyddoedd a chyflwynwyd anrheg i Rebeca White sydd wedi gweithio yn ddyfal ar ran y Gymdeithas,

11.4. 2016 - **Seremoni cyflwyno Cadair y Wladfa 1965** yn Amgueddfa'r Gaiman.
Enillodd y diweddar Archdderwydd Dic Jones y gadair yma ac yn unol â'i ddymuniad cludwyd y gadair hardd yn ôl i'r Wladfa. Croesawyd Siân Jones ei weddw ac Emyr Penlan cynhyrchydd ''Heno'' i seremoni o dan arweiniad llywydd Gorsedd y Wladfa Ivonne Owen. Dangoswn ein diolch a chydnabyddiaeth i deulu Tom Gravelle ac i Emyr am noddi.

15fed a'r 16eg. 4. 2016 - **Dathlu Pen blwydd Ysgol yr Hendre Trelew** yn ddeg oed.
Cynhaliwyd seremoni awyr agored brynhawn Gwener a Swper Mawreddog yn Neuadd Dewi Sant ar y nos Sadwrn. Pob dymuniad da am y dyfodol a bydded i'r addysg barhau gan feddwl ar yr un pryd am Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol y Cwm Trevelin.

Lansiwyd 2 CD yn ystod y flwyddyn yn Nhŷ Gwyn Gaiman. 12.3.2016 - Hogia'r Wilber. 19.11.2016 - Côr Cymysg y Gaiman.

**Darlith '' Llyfrgell Eluned Morgan''** gan Esyllt Nest Roberts.
Diolch i'r Ganolfan Ddiwylliant am drefnu'r noson ardderchog hon.

Trefnwyd gweithgareddau

Saif nifer o berfformiadau yn fyw yn ein cof eleni.
20. 8. 2016 - **Cyngerdd Hogiau'r Wilber ac artistiaid lleol** - yr elw tuag at Eisteddfod y Bobl Ifanc.
23.10 2016 - **Cyngerdd Gwenan Gibbard ar y cyd gydag Ysgol Gymraeg y Gaiman.**

Gweithgareddau amrywiol.
30.4.2016 - **Noson Gyri** yn Nhŷ Te Plas Coed. Mae'n amlwg fod pawb wedi mwynhau'r wers coginio yn ogystal â'i flasu.

17. 6.2016 - **Noson Gwis** yn Ysgol yr Hendre Stryd Moreno, Trelew. Noson i groesawu Elin Arfon a Manon, myfyrwyr ysgoloriaeth Santander yn ogystal â chroesawu Ana Chiabrando adre ar ôl treulio cyfnod yng Nghymru.

12.8.2016 - **Pen blwydd Gaiman**.
Trefnwyd gweithgareddau ymarferol yn ymwneud â'r dre ar y cyd gydag Ysgol Gymraeg y Gaiman. Mae Florencia Zaldegui yr athrawes ymarfer corff yn dysgu siarad Cymraeg. Felly gwahoddwyd Ysgol 415, Ysgol 130, Ysgol Kopos ac Ysgol 100 i ymuno a chael hwyl trwy'r Gymraeg a hyrwyddo'r defnydd o'r Iaith yn y gymuned leol.
16. 9. 2016 - Bwyta'n iach.

Diwrnod arall â'r pwyslais ar hybu iechyd ar y cyd gydag Ysgol Gymraeg y Gaiman a'r tro yma gwahoddwyd disgyblion o Ysgol Bryn Gwyn.
Roedd yn amlwg fod pawb wedi mwynhau gyda'i gilydd ac wedi elwa yn fawr o'r profiad.

21.9.2016 - **Noson Ffilm ''Y Gwyll''** yng Nghanolfan Diwylliant Gaiman. Noson gymdeithasol yng nghwmni Rhisiart Arwel.

**Gweithdai ''Papel Mache''** o dan arweiniad Carina Medina 20fed a'r 27ain o Awst yn Ysgol yr Hendre, Stryd Moreno, Trelew.
Enillodd Carina ysgoloriaeth a mynychodd gwrs Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd.

3. 3. 2016 - Ysgolion yr Hendre Trelew ac Ysgol Gymraeg y Gaiman yn Dathlu **Diwrnod Y Llyfr.**
15.10.2016 - Gwahanol ddosbarthiadau ar draws y Dyffryn yn Dathlu Shw Mae / Sut Mae ?

**Ymwelwyr**

Bu'r Athro Haydn Hughes o Brifysgol Bangor yn gaffaeliad mawr i ni gyd wrth iddo gyflwyno cyfres o wersi, sesiynau a gweithdai i blant, rhieni, oedolion, tiwtoriaid ac athrawon ym Madryn, Trelew, Gaiman a Dolavon.

Bob Puw o Gaerdydd eto'n cael croeso twymgalon yn ystod ei ymweliad a'r Ddarlith '' Gadael yr Hen Wlad '' yn tynnu cynulleidfa luosog. Un cyflwyniad yng Nghanolfan Diwylliant Gaiman a'r llall yn Neuadd Dewi Sant.

Bu dosbarthiadau siaradwyr Trelew a Dolavon yn rhannu profiadau gyda Rhys Llewelyn a Wayne Morris. Bu'r ddau yma dros wyliau'r Pasg yn gwneud gwaith ymchwil am y Wladfa.

Cafwyd amser hefyd yng nghwmni'r Athro Iwan Wyn Rees, Darlithydd yn Adran y Gymraeg Prifysgol Caerdydd. Yntau'n cyfweld a chael ymatebion diddorol i gwestiynau bachog iawn ganddo.
Croesawyd Elin Arfon a Manon Thomas y ddwy fyfyrwraig o Brifysgol Caerdydd a enillodd Ysgoloriaeth Santander eleni.

Roedd yn hyfryd cael cwmni Nans Rowlands cyn Swyddog Datblygu yn Nyffryn Camwy mewn dosbarthiadau ddiwedd tymor yr Haf, hithau'n wyneb cyfarwydd i bawb yma .
Diolch i nifer o wirfoddolwyr megis Angharad Davies am gyfrannu at wersi a chymryd rhan yn y gymdogaeth leol.

**Ffeiriau arbennig.**

8fed tan y 10fed. 4.2016. **Ffair Amaethyddol y Gaiman**
Mae enw Menter Patagonia yn amlwg yn y Ffair Amaethyddol ers blynyddoedd bellach a chredaf ei fod yn ffordd dda o ddweud wrth y cyhoedd am y gwahanol ddosbarthiadau Cymraeg yn gynnar yn y flwyddyn. Ymunais gydag Ysgol Gymraeg y Gaiman fore Sadwrn i orymdeithio yn y Seremoni agoriadol unwaith eto eleni.

10fed tan y 12fed .6. 2016. **Ffair Lyfrau Gaiman.**
Tridiau arbennig o weithgareddau bendigedig. Cafwyd datganiadau trawiadol gan yr Ysgol Gerdd o dan arweiniad Gladys Thomas.
Trefnwyd gweithgareddau lu ar Stondin Ysgol Gymraeg y Gaiman a Menter Patagonia. Gwelwyd llawer iawn o blant y gymuned addysg mewn ysgolion eraill yn mwynhau cwmni Sali Mali a Jac y Jwc. Cyflwyniad gan Ysgol Gymraeg y Gaiman ar waith yr awdures Maria Elena Walsh. Diolch i'r holl staff am gyflwyno'r gwaith yn hollol ddwyieithog.

Trefnais sesiwn Siarad Menter Patagonia yn " Salon Virginio Gonzalez''. Roedd Nan Evans o Gaerfyrddin wedi danfon pecyn o wybodaeth a chawsom amser diddorol yn gwrando ar Margarita o'r Gaiman yn son am ei thaid William Evans a'r cysylltiadau â Chymru.

**Eisteddfodau.**

Rhan allweddol bwysig yw ceisio annog myfyrwyr i gystadlu mewn Eisteddfodau. Gwelwyd cystadlu brwd o safon uchel yn yr holl Eisteddfodau. Daeth tyrfa luosog ynghyd i Drevelin ym mis Mai, Mini Bethel Gaiman ym mis Mehefin ac Eisteddfod Mimosa Porth Madryn ym Mis Awst.

**8fed tan 11eg o Fedi, 2016. Eisteddfod y Bobl Ifanc**
Bu Stondin Menter Patagonia yn llwyddiant mawr ac roedd yn braf croesawu'r plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn eu hamser rhydd.

Roedd y Sioe Agoriadol yn anhygoel a safon uchel iawn o gystadlu gan yr ysgolion.
Bu'n bleser gweld a chlywed cymaint o Ieuenctid ar draws y dalaith yn cystadlu.
Hyfforddais barti cyd adrodd plant oed cynradd Clwb Cymraeg y Gaiman ac roeddynt yn hapus iawn i gipio'r wobr gyntaf.




**Eisteddfod y bobl ifanc yn y Gaiman 2016**

**Hydref 27ain tan 30ain 2016 - Eisteddfod y Wladfa**



**Terwyn Tomos yn cael ei gadeirio yn Eisteddfod y Wladfa 2016**

**Hydref 21ain - 31ain 2016 - Taith yr Urdd**



**Criw yr Urdd 2016**

Dyma adeg llawn cyffro wrth groesawu llu o gyfeillion hyfryd i Ddyffryn Camwy ynghyd ag ieuenctid yr Urdd 2016 yn cael blas ar wahanol weithgareddau yn y Wladfa ar drothwy'r Eisteddfod. Bu fy nghyd Swyddog Jess Andrews yn yr Andes yn treulio'r diwrnodau cyntaf yn eu plith cyn cymryd y bws nos a chroesi'r paith gan gyrraedd yn gynnar bore Mercher 26ain o Dachwedd i Ddyffryn Camwy. Unwaith eto rydym fel swyddogion y falch o gael cydweithio gyda'r Urdd i sicrhau fod trefniadau'n cael eu gwneud yn gymharol esmwyth.

Dyma griw o aelodau talentog a gweithgar iawn ac roedd yn bleser cael eu cwmni difyr yn perfformio ac yn cymdeithasu gyda'r gymuned leol. Bu'r amserlen yn llawn o'r bore cyntaf hwnnw ac felly heb gael llawer o gwsg fe'u cludwyd gyda disgyblion Blwyddyn 4 Ysgol yr Hendre Trelew i Punta Tombo a gweld miloedd o bengwiniaid Magallen yng nghanol gwarchodaeth gyfandirol fwya'r byd. Ar ôl dychwelyd i Ysgol yr Hendre Trelew a ffarwelio gyda'r disgyblion aethom yn ein blaenau i Borth Madryn lle bu'n hyfryd cael ymweld â'r amgueddfa, bedd Catherine Davies, yr ogofau ac yna cofgolofn y Cymry a chofgolofn yr Indiaid.

Credaf fod canu Calon Lân a gosod blodau wrth ymyl y bedd wedi bod yn amser emosiynol iawn. Mawr fu'r croeso a gawsom yng Nghanolfan wych Tŷ Toschke Porth Madryn. Braf oedd cyfarfod Lorena Peralta a Silvina Garzonio a llawer o ddysgwyr brwdfrydig a gweithgar oedd yn mwynhau canu caneuon traddodiadol a chymryd rhan mewn Twmpath Dawns tu allan ar y patio. Diolch i'r Gymdeithas a ffrindiau a sicrhaodd fod paned a chacennau blasus yn ein disgwyl. Diwrnod blinedig ond pleserus iawn. Y bore canlynol cawsant gyfle i gyfarfod ffrindiau o bell ac agos yng ngwres yr haul wrth Gapel Bethel Gaiman ac wrth Gylch yr Orsedd.

Yn dilyn y seremoni yma fore Iau bu'r ieuenctid yng nghwmni disgyblion Coleg Camwy. Yn naturiol mae'r disgyblion yn mwynhau ac yn edrych ymlaen at gymdeithasu gyda ffrindiau newydd o Gymru yn flynyddol ac yn elwa'n fawr o glywed y Gymraeg o'u cwmpas. Trefnwyd taith gerdded gan Gabriel Restucha ac fe gafodd y disgyblion amser da yn eu tywys o gwmpas Gaiman yna gorffen trwy gael cinio ysgafn yn y Coleg.

Roedd pawb yn barod erbyn hyn am amser rhydd a chael crwydro ac ymweld â gwahanol fannau megis Ysgol Gerdd Gaiman yn ôl dewis personol.  Felly swper hyfryd iddynt yng Ngwalia Lân i gwblhau'r ail ddiwrnod.



**Rhai o griw'r Urdd gyda disgyblion Coleg Camwy yn y Gaiman**

Bore Gwener bu'n rhaid rhannu mewn tri grŵp ymweld ag Ysgol Gymraeg y Gaiman, Ysgol yr Hendre Trelew Moriah ac adran y plant lleiaf Ysgol yr Hendre yn stryd Moreno Trelew.

Diwrnod diddorol yn llawn gweithgareddau amrywiol wrth glywed a gwerthfawrogi doniau a thraddodiadau ein gilydd. Yn hwyrach unwyd y criw o ieuenctid talentog a chafwyd gwledd o berfformio yn Neuadd Dewi Sant i gychwyn noson agoriadol Eisteddfod y Wladfa 2016.

Llongyfarchiadau bawb am eu llwyddiannau yn yr Eisteddfod boed yn berfformiadau neu waith ysgrifenedig. Cyfeiriodd  Gwenan Gibbard y beirniad cerdd at safon uchel iawn o berfformiadau ac yn yr un modd dywedodd Terwyn Tomos y beirniad llefaru ei fod yntau'r un mor bles a bod graen ar y cyflwyniadau. Ar nodyn personol roedd parti Cyd Adrodd Ffrindiau Gaiman am adrodd 'Dwyn Afalau' yn falch iawn o gipio'r wobr gyntaf ac yn fwy na dim yn cael yr anrhydedd o ennill y brif wobr llefaru.

Cyn meddwl am eisteddfota ar y Sadwrn cafodd criw'r Urdd eu tywys o gwmpas canol Trelew ac ymweld â'r Amgueddfa Ddinosoriaid a Chapel Moriah cyn cael cinio ysgafn yn Y Touring. Diolch i Gymdeithas Dewi Sant am drefnu'r daith.

Uchafbwynt yr Eisteddfod dydd Sadwrn oedd seremoni'r Cadeirio. Rhoddodd beirniadaeth Mererid Hopwood wefr i ni a gyda balchder a llawenydd cyhoeddwyd fod Terwyn Tomos yn fuddugol am gyfres o gerddi ar y testun ''PERTHYN'. Diolchwn yn ogystal i Terwyn am gynnal dau weithdy ar y gynghanedd yn ystod ei ymweliad.  Bu'r ddau weithdy yn llwyddiant mawr. Diolch i Giovanna Rechia am leoliad Siop Lyfrau 'Un Amor Diferente 'Gaiman a bu'n braf ymuno gyda ffrindiau'r Andes yng Nghanolfan Hazel Charles Evans Esquel.

**Gweithdai Terwyn Tomos yn y Dyffryn a'r Andes**

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu i gloi Eisteddfod Y Wladfa 2016 ar fore Sul yng Nghapel Tabernacl Trelew. Tyrfa luosog yn ôl yr arfer a theimladau cymysg o lawenydd a thristwch wrth ffarwelio â nifer o'r ymwelwyr. Bu cyfraniadau cyfoethog Ieuenctid yr Urdd yn atseinio'r fro wrth iddynt dreulio eu diwrnod olaf yn Nyffryn Camwy. Cawsom ddiwrnod hyfryd yn eu cwmni gan fynd yn union o'r Gymanfa ar y bws lleol trwy'r Dyffryn i gael croeso twymgalon ar Fferm Bod Iwan gyda Waldo Williams a Fabiana Gonzalez a'r teulu. Luned Gonzalez yng nghwmni Waldo yn rhoi hanes diddorol y cartref ac yna cyflwyniad ac arddangos y system ddyfrio.
Cawsom wledda yn yr awyr agored yn y llecyn godidog. Diolch am baratoi lluniaeth blasus iawn . Ond nid oedd y diwrnod ar ben eto roedd Cyngerdd gwych yn ein disgwyl yn Hen Gapel Bethel nos Sul a hynny yn nwylo medrus yr ieuenctid dawnus yma. Diolch i'r arweinyddion a'r ieuenctid eleni ar ran cyfeillion Dyffryn Camwy.

**Tlws Dysgwr y Flwyddyn Patagonia.**
Hoffwn ddatgan ein bod yn hynod falch bod Noe Jenkins wedi ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn 2016 - Menter Patagonia. Darllenwyd beirniadaeth Ann Marie a Tito Lewis gan Ana Chiabrando. Roeddynt yn canmol cyfraniad Noe i fywyd cymdeithasol ac addysgiadol Cymreig cymuned Esquel. Diolch i Ann Marie a Tito am feirniadu fel sylfaenwyr y gystadleuaeth yma. Cefais gyfle i weld Noe yn mwynhau yng nghanol gweithgareddau gyda'r disgyblion lleiaf yn Ysgol Gymraeg yr Andes Esquel tra bûm yno yn ddiweddar.

Yn ogystal cyflwynir Tlws Dysgwr Y Flwyddyn gan Hazel Charles Evans i'r disgybl buddugol ac yna un fedal i ddisgybl am ymgais dda mewn dosbarthiadau oed cynradd. Mae'r cymunedau eisoes wedi derbyn y tlysau a'r arian a gyflwynir am y pedair blynedd nesaf.

Bu diwedd tymor yr Haf llawn prysurdeb wrth drefnu a chynnal Nosweithiau Llawen y dosbarthiadau Cymraeg a chyflwyno tystysgrifau diwedd blwyddyn i bawb. Braf hefyd yw bod yn rhan o hyfforddi plant y Clwb Cymraeg Gaiman ar gyfer Gwasanaeth Nadolig y Dosbarthiadau Cymraeg a gynhelir yng Nghapel Bethel Gaiman. Cewch fanylion llawn o'r gweithgareddau ar Gweplyfr Menter Patagonia.

Rhan bwysig o'r gwaith yw uwchlwytho lluniau a negeseuon ar dudalen gweplyfr Menter Patagonia. Yn ogystal bu'n bleser tra'n swyddog i anfon newyddion yn fisol at Ceris Gruffudd, Cymdeithas Cymru Ariannin. Danfon erthygl yn fisol i bapur bro cylch y Frenni sef 'Clebran'.

Bu'n flwyddyn brysur ond pleserus iawn.
Diolch i bawb am gefnogaeth gyson.

*Eluned Jones*
*Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg yn Nyffryn Camwy 2016.*



**Adroddiad Cydlynydd 2016 - CLARE VAUGHAN**

Wrth nesáu at ddiwedd blwyddyn arall a blwyddyn ddaeth yn sgil dathliadau'r Canmlwyddiant a Hanner, teg edrych yn ôl o safbwynt personol ar uchafbwyntiau a heriau'r flwyddyn.

**Swyddogion o Gymru**

Rhaid llongyfarch y tair ar eu gwaith eleni: nid yw'n hawdd dod mor bell i weithio mewn sefyllfa sydd yn hollol wahanol i Gymru a does dim ots faint o baratoi a chyngor sydd yn cael ei gynnig cyn teithio, mae realiti bob amser yn rhywbeth gwahanol.

Cafodd Nia Jones ei phenodi ar gyfer yr Andes. Daeth hi gyda Gwion ei phartner a barodd hyn ychydig o bryder i'r gymuned ar y dechrau, ond nid oedd angen pryderu: mewn gwirionedd rydym wedi cael dau swyddog 'am bris un' mwy neu lai gyda Nia a Gwion. Maent bob tro yn barod i gyfrannu a chymryd rhan mewn pob digwyddiad a gweithgaredd. Nid oedd 2016 yn mynd i fod yn flwyddyn hawdd yn yr Andes gydag agoriad swyddogol Ysgol y Cwm, ynghyd â phrosiect adeiladu Canolfan Esquel ac ar ôl y dathliadau mawr 2015. Ond, dangosodd Nia ei bod yn barod i dderbyn pethau fel yr oedden nhw ac i dderbyn bod angen bod yn hyblyg!

Mae'n anodd parchu'r dosraniad o amser yn ôl y cytundeb - 75% dysgu a 25% Menter - achos mae angen mwy o oriau dysgu yn sicr. Anodd iawn ydy cadw'r 25% ar gyfer trefnu gweithgareddau/gwaith Menter yn unig, ac mae hynny'n golygu bod pob swyddog yn tueddu i weithio mwy nag oriau eu cytundeb.

Mae Eluned Jones wedi cael blwyddyn ffrwythlon arall yn y Dyffryn lle mae wedi gallu ymroi i waith plant. Mae ei chyfraniad wedi bod yn bwysig iawn gyda thyfiant Ysgol Gymraeg y Gaiman yn ogystal â gwaith dyddiol Ysgol yr Hendre, Trelew. Y peth anoddaf i Eluned oedd gwrthod derbyn mwy o waith, ond mae'n deg dweud ei bod hi wedi gwneud mwy o oriau nag oedd yn ei chytundeb er mwyn ateb gofynion yr holl ysgolion. Mae hi'n gyson yn fwy na pharod i helpu gwaith plant bach a'r athrawon sydd yn eu dysgu.

Mae Jess Andrews wedi cyfrannu'n barod iawn at waith y Dyffryn, gyda'r ysgolion a'r dosbarthiadau Oedolion fel ei gilydd. Buodd yn ddiwyd hefyd gyda threfnu sawl digwyddiad cymdeithasol Menter yn y Dyffryn eleni.

**Trwyddedau gwaith (visas) y Swyddogion Datblygu**

Bydd hi'n ugain mlynedd ers sefydlu'r Cynllun yn 2017, mae'n edrych yn debyg y bydd trwyddedau gwaith swyddogol (*visas*) ar gael i'r Swyddogion Datblygu sydd yn dod allan i weithio yma yn yr Ariannin yn 2017. Rydym yn hapus iawn bod gwaith yn cael ei wneud bellach, er mwyn sicrhau bod y swyddogion sydd yn dod allan yn gallu cyflwyno'r papurau angenrheidiol er mwyn treulio eu cyfnod gwaith yn ddirwystr ym Mhatagonia.

**Arholiadau**

| Lefel | Nifer o ymgeiswyr | Pasio | Methu |
|---|---|---|---|
| **MYNEDIAD** | 2 | 2 | 0 |
| **SYLFAEN** | 5 | 2 - Pasio 2 - Rhagoriaeth | 1 |
| **CANOLRADD** | 2 | 2 - Rhagoriaeth | 0 |

Trueni bod neb wedi teimlo'n barod i sefyll yr arholiad Uwch eleni - byddai hi wedyn wedi bod yr ail flwyddyn o'r bron inni gael ymgeiswyr ar bobl lefel. Diolch yn fawr i Emyr Davies yn CBAC am fod mor fodlon i ni sefyll yr arholiadau yma achos mae wir yn rhoi statws i'r gwaith ac mae pobl yn mwynhau cael uchelgais arbennig, sef sefyll yr arholiadau. Fel canran o'r dysgwyr yn y Wladfa baswn i'n meddwl bod y nifer sydd yn sefyll arholiadau yn eithaf uchel sef 6.7% o'n dysgwyr!

Mae rhaid gweithio i geisio cynnwys ymarferion arholiad yn y gwersi wrth ddysgu fel bod yr ymgeiswyr yn teimlo'n hyderus i sefyll yr arholiad. Fel rheol bydda i'n cynnig sesiynau paratoi arholiadau yn y Dyffryn ac yn yr Andes. Diddorol ydy nodi bod 3 o'r 5 ymgeisydd ar lefel Sylfaen a'r 2 o'r 2 ar lefel Canolradd eleni wedi sefyll arholiad o'r blaen, sydd yn dangos dilyniant eu diddordeb.

Yn 2017 bydd arholiadau ar bob lefel yn cael eu cynnig unwaith eto ac mae cynlluniau ar y gweill yn barod i gwrdd yn ystod gwyliau'r haf i baratoi ar gyfer y lefel Uwch. Bydd angen casglu enwau ar gyfer cofrestru ym mis Chwefror, sef yn ystod gwyliau'r haf yma ym Mhatagonia. Er nad ydym wedi gorffen y tymor eto, mae 16 o enwau ymgeiswyr wedi dod i law ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Diwrnod Dwyieithrwydd**

Er i'r diwrnod gael ei glustnodi ar gyfer eleni am yr ail waith, am resymau amrywiol, ni chynhalwyd y digwyddiad, felly, y bwriad ydy trefnu o flaen llaw er mwyn cynnal y diwrnod yn gynnar yn 2017. Mae'n ddiwrnod pwysig nid yn unig i'r ysgolion dwyieithog ond hefyd i'r tiwtoriaid a'r athrawon sydd yn gweithio yn y maes, ac yn neges bwysig i ddangos i Lywodraeth Chubut ein bod ni yn gweithio gyda'n gilydd.

**Dysgu Dosbarthiadau**

Athrawes ydw i wedi bod erioed ac un o'r pethau dw i'n mwynhau mwyaf ydy bod o flaen dosbarth ac yn Esquel, lle mae'r dosraniad gorau o ddosbarthiadau yn y Dalaith mae dosbarthiadau Uwch a Meistroli yn bodoli.

Ers i mi fod yn athrawes yn y dalgylch, mae'n amlwg bod y myfyrwyr wedi mwynhau'r dosbarthiadau dw i wedi'u rhoi, ac felly gan na phenodwyd tiwtor oedolion arbenigol i'r dalgylch erioed, mae'r gwahoddiad yn dod bob blwyddyn imi ddysgu'r ddau grŵp yma. Mae'n anodd gwrthod gan ei fod yn ychydig o draddodiad erbyn hyn, a hefyd achos fy mod i'n mwynhau hefyd wrth gwrs!

Y gwir ydy bod angen swyddog arall yma yn yr Andes, oherwydd pan oedd Eluned Jones yn cael ei chyflogi fel Swyddog Datblygu gydag arbenigedd plant yma y llynedd, roedd Iwan Madog hefyd yn cael ei gyflogi - trwy garedigrwydd unigolyn lleol - ac yn arbenigo ar waith Menter a dysgu.

Erbyn hyn, rydym wedi cael blwyddyn eto o dan yr 'hen' drefn o gael un swyddog yn yr Andes, ac mae'r gwaith yn drwm i un person! Mae Gwion, (partner Nia Jones) wedi helpu cymaint ag sy'n bosib ond nid yw'n athro profiadol.

**Eisteddfodau**

Mae'r Eisteddfod erbyn hyn yn rhan annatod o'r diwylliant Cymraeg a Chymreig yn y Wladfa gyda sawl eisteddfod yn rhan o'r calendar blynyddol: Eisteddfod Trevelin ym mis Mai, Eisteddfod Porth Madryn ym mis Awst, Eisteddfod Ysgolion yr Andes ym mis Awst, Eisteddfod yr Ifanc Chubut ym mis Medi ac Eisteddfod fawr Chubut ym mis Hydref. Bywyd eisteddfod ydy cystadlu a bod yn bresennol a chydweithio, felly dw i wedi cyfrannu at amryw o eisteddfodau trwy osod testunau, beirniadu a hyd yn oed arwain o'r llwyfan. Mae'r gwaith hwn yn holl bwysig a hefyd credaf y dylai'r swyddogion sydd yn dod draw yn flynyddol ddeall pa mor bwysig ydy eu presenoldeb yn yr eisteddfodau gwahanol, er efallai nad ydynt yn eisteddfodwyr adref yng Nghymru.

**Gwirfoddolwyr**

Mae'r nifer o ymholiadau gan bobl sydd â diddordeb gwirfoddoli yn y Wladfa bob blwyddyn yn cynyddu. Ar ôl ambell brofiad anodd, penderfynwyd gofyn i ddarpar-wirfoddolwyr lenwi ffurflen cais er mwyn gwneud yn siŵr bod ganddynt sgiliau fyddai'n cyfoethogi gwaith beunyddiol y prosiect.

Yn achos y myfyrwyr sydd wedi dod allan o dan ysgoloriaeth Santander trwy Brifysgol Caerdydd, mae'r broses wedi'i wneud yn fwy ffurfiol bob blwyddyn ers y flwyddyn gyntaf ond mae yn dal i fod yn lawer o waith am ychydig o fewnbwn.

Fel mewn llawer o achosion, mae'r myfyrwyr yn cael profiad gwych ac yn barod i gyfrannu ond mae'r cyfnod mor fyr, siawns na chawn ni eu defnyddio nhw i'w llawn botensial. Gan mai'r tocyn awyren ydy'r canran drutaf o'r hyn sy'n cael ei wario, trueni nad ydynt yn gallu dod am gyfnod hirach.

**Perthynas gyda Chyngor Prydeinig Buenos Aires**

Erbyn hyn, mae British Council Buenos Aires yn bodoli fel endid yn y wlad ac felly er ein bod ni - fel cydlynwyr a'r swyddogion sydd yn dod i weithio am flwyddyn - o dan ofal swyddfa Caerdydd, bydd hi'n ddiddorol gweld sut fydd y berthynas gyda swyddfa Buenos Aires yn datblygu yn y dyfodol.

**Taith yr Urdd**

Heb os nac oni bai un o uchafbwyntiau'r flwyddyn i ni fel cymuned ydy ymweliad criw'r Urdd. I ieuenctid y Wladfa, mae clywed pobl ifanc Cymru yn siarad yr iaith yn neges bwysig iawn ac mae eu presenoldeb yn fuddiol dros ben i fywyd cymdeithasol y Wladfa a'r eisteddfod heb os.

Yn yr un modd, mae hyn yn rhoi cyfle i bobl ifanc Cymru gael profiadau gwerthfawr yma yn y Wladfa. Mae hefyd yn fodd o greu cysylltiadau cryf rhwng y ddwy wlad, ac o ysbrydoli ieuenctid Patagonia i fod yn fwy ymwybodol o'r iaith a'r traddodiadau.

Pan ddechreuodd y teithiau roedd swyddog dysgu a swyddog Menter yma ar ran y Cynllun, ac felly roedd y swyddogion Menter yn gallu rhoi 100% o'u hamser at drefnu'r rhaglen a manylion y daith.

Erbyn hyn, gan fod y swyddi wedi cael eu rhannu gyda 75% dysgu a 25% Menter, mae'n golygu llawer o waith i'r swyddogion o flaen llaw, a thra bod y criw yma. Mae'n golygu cydweithio gyda'r gymuned hefyd, gan fod eisiau digon o sgiliau iaith Sbaeneg i allu archebu llety a bysiau ayyb.

Dylai bod system mewn lle erbyn hyn fel bod swyddogion yr Urdd a'r Cynllun yn trosglwyddo'r wybodaeth angenrheidiol o un flwyddyn i'r llall fel bod modd osgoi'r un problemau yn flynyddol. Mae angen trafodaeth i ystyried a oes angen i Swyddogion Datblygu'r Prosiect fod yn bresennol gyda chriw'r Urdd drwy gydol amser y daith. Roedd y sefyllfa'n haws pan oedd swyddogion Menter penodol ar gael yma, lle roeddynt yn gallu treulio 100% o'u hamserlen gwaith gyda'r grŵp. Rŵan, gyda dim ond 25% o amser y Swyddogion wedi neilltuo i waith Menter, rhaid rhannu'r amser rhwng y criw a'r dosbarthiadau. Mater o ganslo gwersi ydy hi bellach, ac efallai cynhyrfu'r gymuned. Cwestiwn i'w ystyried.

Yr hyn sydd yn bwysig ydy bod y grwpiau sy'n dod yn cael digon o gyfleoedd i gymysgu gyda dysgwyr ifanc yn y Wladfa fel sydd wedi digwydd bob blwyddyn ers i'r teithiau ddechrau. Credaf fod y profiadau maent yn eu cael yma yn y Wladfa yn rhai bythgofiadwy a rhai sydd yn gallu creu argraff ar bobl ifanc yma hefyd. Teimlaf fod y wers yn un ddylid ei ddysgu i bobl ifanc Cymru gyfan!

**Pwyllgorau lleol**

Yr unig bwyllgor sydd wedi cwrdd yn rheolaidd ydy pwyllgor dosbarthiadau Trevelin. Mae'r gweddill wedi cyfarfod ychydig o weithiau, fel arfer, i gyd-fynd gydag un fy ymweliadau i.

Er bod pobl yma yn hoffi cwrdd ag yn hoffi bod ar bwyllgorau, nid yw'r syniad o bwyllgorau dosbarthiadau wedi gafael yn nychymyg pobl yn yr un ffordd. Y gwir ydy ei bod i'n anodd iawn dewis amser a dydd sydd yn addas i'r mwyafrif. Rhaid meddwl am ffordd greadigol o gael y bobl yma at ei gilydd yn amlach fel eu bod yn cael y cyfle i drafod materion pwysig efo'i gilydd.

**Gwaith hyfforddi tiwtoriaid**

Yn y gorffennol, rwyf wedi paratoi unedau ar faterion methodoleg dysgu fel gweithgareddau cyfathrebol, paratoi deunyddiau addas, drilio, pwysigrwydd gwaith llafar, drilio ayyb. Fel rydym wedi sôn eisoes, roedd yn her a hanner cael athrawon proffesiynol - y rhai a ddylai ddeall pwysigrwydd cyrsiau hyfforddi ar gyfer eu CV ac i gael dyrchafiad yn y gwaith - i *newid* a gwella eu dysgu.

Gwneud y gwaith oherwydd eu bod yn caru'r iaith mae'r tiwtoriaid lleol, nid er mwyn ennill statws neu i fod yn gyfoethog. Er hyn, gwaith anodd iawn ydy perswadio'r tiwtoriaid bod angen gwella ar yr hyn maent yn ei wneud.

Ar y dechrau, roedd tiwtoriaid yn fodlon cwrdd bore dydd Sadwrn i dderbyn hyfforddiant ond erbyn hyn, gyda phawb yn gweithio mewn cymaint o bethau a gyda galwadau gwahanol, nid ydynt mor barod i ddefnyddio eu Sadyrnau prin ar gyfer rhywbeth sydd ddim yn dod ag arian i mewn i roi bwyd ar y bwrdd.

**Cydlynydd Gweinyddol, Luned Gonzalez**

Mae wedi bod yn bleser - ac yn gymorth ers dechrau fy ngwaith fel cydlynydd dysgu - cydweithio gyda Luned Gonzalez: fel rhywun sydd wedi bod yn bresennol ers dechrau'r prosiect nid oes neb yn gwybod yn well na hi beth ydy anghenion a gofidion y cymunedau lleol. Mae'n un sydd yn gallu meddwl yn gall mewn sefyllfaoedd anodd ac mae wedi bod yn gefn imi yn bersonol ac yn broffesiynol.
Gan ein bod yn byw ar wahanol ochrau i'r Dalaith rydym yn cadw mewn cysylltiad yn gyson ac yn ymwybodol o beth mae'r swyddogion sydd wedi'u lleoli'n agos yn ddaearyddol i'w gilydd yn ei wneud. Rydym yn trafod materion sydd yn effeithio ar y tiwtoriaid a'r swyddogion ac yn siarad dros Skype yn gyson, ac rydym yn cwrdd wyneb yn wyneb bob tro bydda i'n teithio i'r Dyffryn. Nid wyf yn gallu meddwl am berson sydd yn gweinyddu gyda chymaint o gariad at yr iaith a'r diwylliant a chymaint o ofal dros y bobl sydd yn gweithio o fewn y prosiect. Rwyf yn falch iawn o fod yn y tîm.

**Ysgol y Cwm**

Er nad yw'n rhan o'm gwaith fel cydlynydd, byddai wedi bod yn amhosib peidio â chyfrannu i'r her o greu ysgol newydd ddwyieithog yn yr Andes. Fel rhywun hefyd sydd wedi bod ynghlwm wrth ddysgu ail iaith erioed ac sydd yn byw bellach yn y gymuned, mae'n bleser cael cydweithio er mwyn gweld y prosiect yn llwyddo, er nad oes plant gen i ac nad ydwyf yn dod o'r ardal yn wreiddiol! Teg dweud bod y prosiect wedi cymryd mwy o egni ac amser na fyddai neb wedi gallu dychmygu ar ddechrau'r broses, ond erbyn hyn mae'r ysgol yn troi yn ganolbwynt gwaith y dosbarthiadau Cymraeg yn Nhrevelin.

Wrth wynebu cyfnodau ansicr ar y dechrau, cawson ni ein hysbrydoli gan lwyddiant ein ffrindiau yn Ysgol yr Hendre ac Ysgol Gymraeg y Gaiman, gan eu bod wedi bod trwy'r un profiadau o'r blaen. Fel cydlynydd, hoffwn weld prosiect a fyddai'n dod â'r tair ysgol at ei gilydd i gydweithio ar gynllun hyfforddi athrawon, ac fel cam bach yn y broses cyn diwedd y flwyddyn, y bwriad ydy cael sgwrs gyda'r prifathrawon i weld beth sydd yn debygol o weithio, ac os ydyn nhw yn gweld yr anghenion yn yr un ffordd.

**I gloi**

Mae'r prosiect wedi newid cymaint ers y dyddiau cyntaf a chredaf fod hyn yn rhywbeth i'w ddathlu: tasai popeth wedi aros yn ei unfan, ni fyddai'n rhywbeth byw. Yn yr un modd, rwyf wedi gweld pethau sydd wedi gwella llawer ers i mi ddechrau gweithio gyda'r Cynllun nôl yn 2005, ac ar drothwy dathlu 20 mlynedd o brosiect - oedd fod i barhau am dair blynedd yn unig - rwyf yn argyhoeddedig bod yr hyn mae wedi'i gyflawni yn llawer mwy na'r freuddwyd gychwynnol. Ar y dechrau, yr oedolion oedd yn mynychu'r dosbarthiadau i ddysgu Cymraeg er mwyn dechrau gwneud y gwaith o drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf: rŵan, mae tair ysgol ddwyieithog yn weithredol ac maent yn creu cyfleoedd i gael cenedlaethau o blant yn hollol rugl erbyn iddyn nhw fod yn 11 oed.

Gyda'r heriau newydd, rhaid chwilio am ffyrdd creadigol i'w hwynebu a'u datrys ond yn anffodus mae'r hen ddywediad dal yn wir 'Diwedd y gân yw'r geiniog'.

Mae cymaint o waith yn cael ei wneud gan bobl ymroddedig sydd yn caru'r iaith a'i phethau, trueni nad oes mwy o gefn ariannol i brosiect sydd yn dod â phobl at ei gilydd ac i greu cysylltiadau mewn byd sydd yn prysur bwysleisio'r gwahaniaethau rhwng gwledydd a thraddodiadau, yn hytrach na dathlu'r nodweddion sy'n debyg.

*Clare Vaughan, Rhagfyr 2016*



**Clare Vaughan gyda dosbarth Oedolion yn Esquel**

**ADRODDIAD LUNED GONZÁLEZ**, Cydlynydd Gweinyddol

Mae Cynllun yr Iaith Gymraeg wedi mynd ymlaen o nerth i nerth yn ystod 2016.

Swyddogion o Gymru'r flwyddyn hon oedd Eluned Jones (yma ar ei thrydedd flwyddyn), Jessica Andrews a Nia Jones. Mae Eluned yn byw yn Nhŷ Camwy yn y Gaiman ond yn gweithio yn Nolavon, Trelew a´r Gaiman ac yn cael cefnogaeth gyson ei gŵr Euros. Mae Nia wedi ei lleoli yn Nhrevelin ac yn dysgu yn Esquel a Threvelin ac yn cael cefnogaeth ei phartner Gwion sydd wedi bod yn gaffaeliad mawr iawn.

Mae Jessica yn rhannu fflat yn Nhrelew efo Katie Jones, athrawes, yn Ysgol yr Hendre ac yn dysgu yn Nhrelew, Gaiman a Rawson ac yn ymweld â Dolavon a Madryn o bryd i´w gilydd.

Bu tiwtoriaid lleol yn gweithio hefyd ymhob dalgylch. Mae eu gwaith yn bwysig iawn gan eu bod yn deall y cymunedau ble maent yn dysgu ac yn barod i weithio am ychydig o dâl.

Derbyniodd Cymdeithas Camwy daliadau oedd yn y Banco Chubut ym Muenos Aires, taliadau 2015 oeddynt. Mae'r rheolau wedi mynd yn gymhleth ynglŷn â throsglwyddo arian o un wlad i´r llall ac felly nid ydy arian 2016 wedi cyrraedd eto.

Mae Cymdeithas Camwy wedi talu'r tiwtoriaid lleol bob mis a hyderwn bydd yr arian yn dod o Gymru maes o law. Gwyddwn fod staff y Cyngor Prydeinig yn gwneud eu gorau ynglŷn â hyn. Mae Adran Addysg Llywodraeth Chubut wedi talu rhai oriau hefyd.

Gan nad oes swyddog Menter llawn amser ar hyn o bryd, mae trefnu gweithgareddau yn rhan o ddyletswyddau'r Swyddogion Datblygu. Maent wedi trefnu llawer o wahanol ddigwyddiadau ar hyd y flwyddyn. Mae hyn yn dod â chyhoeddusrwydd i waith y Prosiect ac yn dod a´r iaith i´r gymuned. Mae'r papurau dyddiol wastad yn cyhoeddi lluniau ac adroddiadau am y digwyddiadau hyn yn enwedig El Chubut yn yr atodiad wythnosol "El Zonal". Yn Nyffryn Camwy mae'r digwyddiadau yn cael eu hysbysebu yn rhaglen wythnosol LU20 Radio Chubut sydd dan ofal Luned.

Fel mae'r siaradwyr Cymraeg naturiol yn mynd o un i un mae swyddogaeth yr ysgolion cynradd dwyieithog yn allweddol. Mae Ysgol yr Hendre, Ysgol Gymraeg y Gaiman ac Ysgol y Cwm yn cyflawni gwaith rhagorol dan amgylchiadau anodd iawn o safbwynt ariannol. Hefyd mae'n anodd cael digon o staff efo cymwysterau dysgu a thystysgrif swyddogol ac yn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyna pam mae cael y posibilrwydd o dreulio amser yng Nghymru ar gyrsiau ac yn arsylwi mewn ysgolion mor bwysig. Mae´r profiad yn un gwerthfawr iawn, yn allweddol credaf fi. Rhaid dewis pobol sydd eisoes wedi dangos ymroddiad yn yr ysgolion.

Mae yn braf bob amser croesawu ymwelwyr o Gymru. Ers rhai blynyddoedd mae Ysgoloriaeth Santander yn galluogi ymweliad dwy neu ddau o fyfyrwyr. Efallai y dylid cael mwy o drafod CYN iddynt brynu'r tocyn hedfan fel bod nhw yn dod ar yr amser mwyaf cyfleus a buddiol i´r gymuned yma. Rydym bob amser yn elwa o'u presenoldeb ac yn gwneud ein gorau i lanw eu hamser yn yr ysgolion, dosbarthiadau a digwyddiadau Menter.

Uchafbwynt yr ymweliadau wrth gwrs ydy cael criw ifanc yr Urdd yma yn adeg Eisteddfod Chubut. Roedd eu cyfraniad yn yr Eisteddfod yn aruthrol. O safbwynt trefnu mae'r ymweliad yn rhoi dipyn o bwysau ar y swyddogion ac ar wirfoddolwyr lleol.

Efallai buasai yn syniad cael person lleol i fod efo nhw trwy'r amser maent yn Nyffryn Camwy, ond mae yn anodd dod o hyd i berson fel hyn a all gyfathrebu yn Gymraeg. Mae pawb mor brysur efo´r Steddfod neu yn eu gwaith. Rwyf yn trio rhoi pob cefnogaeth i´r ymwelwyr yma.

I grynhoi, er ein bod ni wedi meddwl y buasai hi yn flwyddyn "fflat" ar ôl holl "hype" y 150iant, rwyf yn teimlo ein bod wedi cael blwyddyn o waith cydwybodol gan athrawon a disgyblion a llawer o bethau wedi cael eu cyflawni. Hyderaf bydd y Prosiect yn dal i gael cefnogaeth ac yn dal i ddod a´r iaith yn fyw i lawer yn ein cymuned Batagonaidd.

*Luned González*

*Gaiman*



**Luned Gonzalez, y Gaiman**

**ASTUDIAETHAU ACHOS**



# Nahiara Bonillo

Mae Nahiara'n 15oed ac wedi bod yn dysgu Cymraeg ers dechrau'r flwyddyn eleni. Dechreuodd hi ddysgu am fod nifer o'i ffrindiau yn yr ysgol yn perthyn i'r gymdeithas Gymraeg ac wedi bod yn mynychu Ysgol Gymraeg yr Andes ers blynyddoedd. Heblaw hynny, does ganddi ddim cysylltiad â Chymru na'r Gymraeg.

Treuliodd Nahiara wyliau'r Nadolig yn dysgu Cymraeg gydag athrawes ifanc leol, Grisel Roberts. Roedd Grisel wedi dysgu Cymraeg gan athrawes gyntaf y cynllun yn yr Andes, sef Hazel Charles Evans, ac erbyn hyn mae hi hefyd yn dysgu Cymraeg i eraill. Merch alluog yw Nahiara ac felly mae hi wedi dysgu Cymraeg yn gyflym iawn, ac erbyn hyn, mae hi cystal â'i ffrindiau sydd wedi bod yn dysgu ers blynyddoedd. Mae hi'n manteisio ar bob cyfle i fynychu dosbarthiadau ac i fod yn rhan o weithgareddau'r gymdeithas Gymraeg Trevelin. Rhwng y dosbarthiadau ffurfiol, sesiynau dawnsio gwerin a'r nosweithiau cymdeithasol, mae hi'n treulio tua 9 awr bob wythnos ynghlwm â gweithgareddau Cymraeg a Chymreig yn yr Andes. Eleni bu Nahiara'n cystadlu yng nghystadlaethau gwaith cartref Eisteddfod yr Urdd, bu'n llefaru'n unigol ac mewn grŵp yn eisteddfodau'r Wladfa a bu hefyd yn dawnsio gwerin mewn sawl cystadleuaeth. Mae Nahiara ar hyn o bryd yn gweithio ar gynhyrchu calendr gyda'i ffrindiau i werthu er mwyn codi arian at deithio i Gymru i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn 2018. Dywedodd ei bod wrth ei bodd yn dysgu Cymraeg ac yn mwynhau cyfarfod pobl o Gymru er mwyn ymarfer siarad.



# Noe Sánchez Jenkins

Dechreuodd Noe ddysgu Cymraeg pan oedd yn blentyn gyda'i thaid (ŵyr i Aaron Jenkins ddaeth draw ar y Mimosa). Dechreuodd fynychu gwersi ffurfiol pan oedd yn 10 oed, dan ofal Clare Vaughan, athrawes y cynllun dysgu Cymraeg o Gymru. Erbyn hyn mae hi'n 23 a newydd ennill teitl 'Dysgwr y Flwyddyn' y Wladfa.

"Dwi wrth fy modd yn dysgu Cymraeg ac yn helpu Cymdeithas Gymraeg Esquel. Eleni dechreuais i weithio gyda'r plant bach yn Ysgol Gymraeg yr Andes, Esquel, yn dysgu Cymraeg iddyn nhw bob nos Lun a nos Fercher. Dw i'n mynd i Ysgol 24 hefyd, ysgol gynradd leol, i ddysgu dawnsio gwerin Gymreig i'r plant yna. Dw i'n dawnsio gyda chriw Ceirw'r Andes a dyn ni newydd ddechrau cynllun i gasglu esgidiau clocsio ail law o Gymru. Dw i'n gweithio gyda'r Gymdeithas Gymraeg yn Esquel yn helpu trefnu digwyddiadau e.e. gwersi coginio ac arddangosfeydd. Yn 2017, dwi'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r plant bach ac Ysgol 24; mae cyfle wedi codi i fi weithio gydag Ysgol y Cwm yn Nhrevelin a dw i'n gobeithio i wneud cais am ysgoloriaeth i Gymru i astudio Cymraeg hefyd".

Yng ngeiriau Noe ei hun:
“Mae’ r iaith Gymraeg yn bwysig i mi achos mae fy nheulu yn dod o Gymru yn wreiddiol, daethon nhw 151 o flynyddoedd yn ôl, ar y Mimosa.

Rydyn ni’n byw mewn cymuned sy’n siarad Sbaeneg ac mae angen “creu” cyfleoedd i siarad yr iaith. Dyna pam mae dosbarthiadau yn y Ganolfan a gweithio gyda’r plant yn rhoi cyfle i mi ymarfer y Gymraeg. Dw i’n hoffi’r diwylliant Cymreig, dyna pam dw i´n helpu i ymarfer canu a dawnsio gwerin mewn gweithdy’r iaith Gymraeg yn Ysgol 24. Dw i’n mwynhau cymryd rhan gyda´r Gymdeithas hefyd, o´r “pethau Cymreig”.

Roedd yn bwysig iawn i mi ennill y gystadleuaeth “Dysgwyr y flwyddyn y Wladfa” achos mae'n cydnabod y blynyddoedd o astudio, ac yn fy nghymell i ddal ati i ddysgu Cymraeg.
Hoffwn i un diwrnod gael cyfle i fynd i Gymru i wella fy iaith a dysgu mwy am hanes gwlad fy hen hen daid, Aaron Jenkins”.




**Noe Jenkins yn cynorthwyo gyda gweithgareddau allgyrsiol yng Nganolfan Esquel**

**Florencia Zaldegui, y Gaiman**



Florencia dw i. Dw i’n 25 oed. Dw i’n athrawes Ymarfer Corff. Dw i’n gweithio yn Ysgol Gymraeg y Gaiman a Choleg Camwy.

Ces i fy ngeni yn Rio Negro ac astudio yno hefyd. Wedyn symudais i'r Gaiman.

Dechreuais ddysgu Cymraeg achos fy mod i’n clywed athrawon yn dweud ‘’Croeso’’ a doeddwn i ddim yn deall. Yn gyntaf dysgais y geiriau “helo”, “pêl” a “coch”.

Bues i’n mynd i ddosbarth Eluned Jones efo rhieni Ysgol Gymraeg y Gaiman yn 2014. Dw i’n hoffi clywed a siarad Cymraeg gyda’r plant a’r athrawon. Dw i’n gweithio mewn dwy ysgol sy’n dysgu Cymraeg a dw i’n teimlo ei fod yn bwysig i mi siarad hefyd.

Weithiau mae’n anodd deall iaith newydd ond dw i’n hapus iawn ar ôl llwyddo. Mae traddodiadau, diwylliant a siarad gyda ffrindiau yn dda.

Eleni dw i’n dysgu Cymraeg efo Eluned Jones a Juan Davies. Felly dw i’n cael tair gwers pob wythnos. Dw i’n diolch am gael y cyfle i astudio yma ac yn edrych ymlaen at wneud fy ngorau'r flwyddyn nesaf.

Diolch yn fawr, Florencia Zaldegui.



**Florencia mewn dosbarth Cymraeg gydag Eluned Jones, un o Swyddogion Datblygu’r Cynllun eleni**

**Sara Borda Green, yr Andes.**

**Fy mhrofiad gyda'r CYNLLUN DYSGU CYMRAEG**



**Sara Borda Green (ochr dde'r llun) gyda myfyrwyr a staff Prifysgol Caerdydd**

Mae fy atgofion cyntaf o'r Cynllun Dysgu Cymraeg ym Mhatagonia yn mynd yn ôl i ganol y nawdegau yn Nhrevelin, yr Andes.

Adeg yna cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda'r Athro Robert Owen Jones er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r posibilrwydd o gynnal dosbarthiadau Cymraeg fel ail iaith yn yr ardal. Yn ystod 1996 roedd fy mam wedi bod yn dysgu'n wirfoddol criw o blant yn eu harddegau, ac er roeddwn dim ond yn 8 oed, rwy'n cofio eistedd ar ochr y dosbarth gyda fy mrawd, hanner yn disgwyl iddi hi orffen er mwyn mynd nôl adref, hanner yn mynnu deall pam nad oedd cyfieithiad uniongyrchol i'r Sbaeneg o'r gair "mae".

Adeg yna roeddwn i'n arfer canu yn Gymraeg yng nghôr plant Glesni a llefaru yn yr Eisteddfodau, felly derbyniais gyda gwên fawr y posibilrwydd o fynychu dosbarthiadau gyda phlant fy oedran o 1997 ymlaen.



**Sara (ar y chwith) gyda'i brawd Enrique a ffrind, adeg dechrau'r Cynllun Cymraeg**

Un o'r gweithgareddau lle cefais mwy o sbort oedd y rhaglen radio "Jam Llaeth" gydag Azul De Pol a Grisel Roberts yn ystod y blynyddoedd cyntaf. Gwnaeth yr athrawesau Rhian Jones a Nia Lewis waith da wrth wneud i ni deimlo'n ddigon hapus i siarad Cymraeg yn stiwdio fach FM Alpina ("nawdeg wyth pwynt saith", rwyf dal yn cofio rhif yr orsaf radio!). Am gwpwl o flynyddoedd, es i ymlaen gyda'r rhaglen ar ben fy hun, hyd i 2013, pan gefais y cyfle i ymweld â Chymru am y tro cyntaf. Rhoddodd y profiad yna'r hyder i siarad yn rhugl a chyfathrebu gyda phawb.

Yn ystod y flwyddyn olaf yn yr ysgol uwchradd gweithiais fel cynorthwyydd i Clare Vaughan, yr athrawes newydd. Wedyn symudais i Fuenos Aires am saith mlynedd, i astudio Gwyddorau Cyfathrebu yn y Brifysgol ac i weithio ym mhrif ddinas brysur yr Ariannin. Wrth i ddathliadau Canmlwyddiant a hanner y Wladfa'n agosáu, penderfynais fynd nôl i Drevelin i fod yn rhan o'r gweithgareddau. Yn 2013 enillais ysgoloriaeth i fynychu cwrs haf Cymraeg i Oedolion ym Mhrifysgol Caerdydd, cwrs a'm helpodd i wella'r iaith ysgrifenedig.

Roeddwn i'n meddwl ei bod hi'n bwysig rhoi nôl i'r gymdeithas ychydig o bopeth cefais yn ystod y blynyddoedd o ran Cynllun Dysgu Cymraeg ym Mhatagonia, ac o ran yr addysg gyhoeddus cefais gan Brifysgol Buenos Aires. O'r herwydd, bues i'n rhan o Bwyllgor yr Andes a gweithiais gyda'i aelodau er mwyn cadarnhau mai'r addysgu iaith Gymraeg oedd y brif ffordd i gofio'r Gwladfawyr cyntaf, a'r ford orau o edrych i'r dyfodol. Gwnes i gyd-adeiladu gwefan Cymraeg/Sbaeneg/Saesneg ar gyfer prosiectau a digwyddiadau. Yn ogystal, dysgais Gymraeg i blant yr Ysgol Feithrin ac i griw'r Arddegwyr. Buodd yn bleser hefyd eu paratoi ar gyfer yr Eisteddfodau, yr un ffordd yr oeddwn i wedi cael fy hyfforddi flynyddoedd ynghynt.

Yn ystod 2015, gydag Iwan Madog fel cydweithiwr a chyfaill, dychwelais i'm hen gariad: rhaglen radio 'Jam Llaeth'. Pob nos Lun yn hwyr iawn, 10pm, aethom i orsaf radio Pocas Nueces (cant a chwe phwynt pump y tro 'ma) am hanner awr, neu bedwar deg munud os roeddem yn teimlo'n siaradus. Dangos diwylliant Cymraeg cyfoes i bobol yr Ariannin oedd ein bwriad pwysicaf, heb anghofio rhannu gwaith criw'r Arddegwyr gyda'r Cymry, digwyddiadau'r Andes, hanes lleol, ac yn y blaen. Parhaodd y rhaglen eleni hefyd, tan fis Gorffennaf, pan ddaeth yr amser i mi roi cynnig ar bethau newydd.

Eleni dechreuais gwrs ôl-radd ym Mhrifysgol Caerdydd, MA Astudiaethau Cymreig a Cheltaidd. Ar hyn o bryd rwyf yn gweithio ar rôl y lleoliad a'r gofod mewn cyfrolau straeon byrion a gyhoeddwyd yn ystod y deg mlynedd diwethaf gan dair awdures Cymraeg. Yn annisgwyl, mae tri pherson arall o'r criw o fyfyrwyr yn siarad Cymraeg fel ail iaith. Yn ffodus, mae staff Ysgol Y Gymraeg a'r myfyrwyr eraill sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n hyderus a chyfforddus.

I orffen, credaf fod y cwrs MA wedi rhoi cyfle i mi gyfuno beth ddysgais fel plentyn gyda'r Prosiect yn Nhrevelin â'r addysg academaidd a gefais fel oedolyn yn Buenos Aires. Hefyd, mae'n rhoi cyfle i rannu gyda phobl Caerdydd ychydig am Batagonia yn ystod fy amser yma a, gobeithiaf, ar ddiwedd y flwyddyn, gwybod mwy am yr iaith a'r diwylliant Cymreig.



**Sara gyda ffrindiau yr 'arddegwyr' yn ystod y 90au**

*Sara Borda Green, Trevelin, Yr Andes*


**Marina Cid, Esquel**



**Marina gyda rhai o'r plant yn y dosbarth Cymraeg yng Nghanolfan Esquel**

Helo! Dechreuais i ddysgu Cymraeg yn 1999, yn Esquel gyda Sioned Huws. Gwnes i gwrs Wlpan gyda hi. Wedyn, yn y flwyddyn 2001 dechreuais i weithio yn Ysgol Feithrin Cymraeg Esquel a dw i'n dal i wneud hynny o hyd. Yn y flwyddyn 2005, ces i ysgoloriaeth i wneud Cwrs Haf yn Llambed gyda phump o bobl eraill o Batagonia. Nes i wneud Cwrs Wlpan yna.

Sefais i arholiad Sylfaen yn y Ganolfan yn 2012, a Chanolradd yn 2014. Dw i hefyd wedi gwneud Cwrs Pellach. Ar hyn o bryd, mae Victoria, fy merch i yn siarad Cymraeg hefyd. Mae hi´n dysgu gyda fi, yn yr Ysgol ac adref. Mae fy mam yn dysgu Cymraeg yma, felly, mae´n bwysig iawn i mi barhau gyda´r iaith. Dwi´n cael hwyl wrth ddysgu´r plant, dyfodol yr iaith.




**Canolfan Esquel**

**Gladys Jones, Esquel**



**Gladys gyda'i dosbarth Cymraeg i Oedolion yng Nghanolfan Esquel**

Ces i fy magu mewn cartref Cymreig wrth droed yr Andes, ond do'n i ddim yn siarad Cymraeg. Ar ôl i mi ymddeol, pan ddechreuodd y Cynllun i Ddysgu Cymraeg ym Mhatagonia yn y flwyddyn 1997, dechreuais gyda'r gwersi.

Ces i ysgoloriaeth i fynd i Lambed  ym 1998 ar Gwrs haf a mwynheais yn fawr iawn. Ar ôl dychwelyd, dechreuais i helpu'r athrawon roedd yn dod o Gymru, a dw i'n dal i ddysgu fel myfyrwraig. Sefais arholiadau Canolradd ac Uwch a ches i 'A'.

Ar hyn o bryd dw i'n dysgu i oedolion a threfnu'r amserlen a lefelau'r cyrsiau. Mae Pwyllgor Gwaith yr Ysgol Gymraeg Esquel wedi llwyddo i gael pob lefel, o Feithrin i Feistroli bellach. Dw i'n hapus iawn!



**Gwaith adeiladu i ymestyn Canolfan Esquel, mis Hydref 2016 – ystafelloedd ddosbarth newydd ar y ffordd**

## Profiad Magali



**Magali (ar ochr dde'r llun) yn un o ddosbarthiadau Cymraeg Trelew**

Magali dw i, dw i´n ddau ddeg saith oed a dw i´n dysgu Cymraeg gyda'r Cwrs Mynediad yn Nhrelew ers mis Mawrth eleni. Fel y rhan fwyaf ohonon ni yno, mae gwreiddiau Cymraeg gyda fi - Cymraes oedd fy hen Nain ac roedd fy Nain yn siaradwraig Cymraeg. Dyma'r prif reswm i mi ddechrau dysgu'r iaith Gymraeg eleni. Yn fy marn i, mae'n anhygoel sut mae'r gymuned Gymreig dal yn llwyddo i gadw iaith a thraddodiadau'r Cymry yn fyw yma ym Mhatagonia. Dw i'n caru fy mod i'n rhan o'r gymuned Gymreig nawr. Mae'r iaith yn un anodd ei dysgu ond, dw i'n hoffi mynd i´r dosbarth gydag athrawes Gymraeg. Mae'n wych cael y posibiliad i ni gael ein dysgu gan athrawon o Gymru yn ogystal â chael ein dysgu gan athrawon o Batagonia. Mae'n gwneud y profiad o ddysgu'n fwy cyflawn.

Mae eleni wedi bod yn wych. Dw i wedi dysgu llawer a dw i'n gallu deall a hyd yn oed, siarad ychydig bach o Gymraeg! Amcan y flwyddyn nesaf yw parhau dysgu Cymraeg, pasio'r arholiad Mynediad ym mis Mehefin a rhyw ddydd, dim yn bell yn y dyfodol, dw i eisiau mynd i Gymraeg a dysgu Cymraeg yno.

(Tiwtor Magali yw Jessica Andrews, un o Swyddogion Datblygu'r Cynllun 2016)



**Dosbarth Cymraeg egnïol yn Nhrelew gyda Jess Andrews (ar y dde)**

**Diana Jenkins, Yr Andes**



**Diana Jenkins yn rhoi gwers Gymraeg i rai o ddisgyblion Ysgol 24, Esquel**

“Fy enw i ydy Diana Mariel Jenkins, ac yn 2008 es i ar ysgoloriaeth i Gaerdydd a phan ddes i yn ôl i Esquel dechreuais roi dosbarthiadau Cymraeg yn Ysgol 24, lle dw i’n gweithio fel athrawes.

Mae Ysgol 24 yn ysgol gynradd sy’n perthyn i’r Llywodraeth, a dw i’n gweithio gyda phlant rhwng 9 ac 11 oed. Cyn i mi weithio efo nhw, doedden nhw ddim yn gwybod am fodolaeth yr iaith Gymraeg ac roedd llawer yn meddwl bod yr iaith yr un peth â’r Saesneg.

Y ffordd rydyn ni’n gweithio ydy trwy weithdai. Maen nhw’n cael eu cynnal yn eu tro i wahanol grwpiau o 20 o ddisgyblion sydd yn cael tua 15 o wersi, gyda’r Gymraeg yn cael ei chyflwyno trwy gyfrwng gemau, caneuon a gwersi iaith; eleni hefyd, ychwanegon ni ddosbarth Dawnsio Gwerin gyda help Pablo Cardenas a Noelia Sanchez Jenkins, fy merch.

Mae’n rhaid dathlu bod y gweithdai yma wedi ennyn chwilfrydedd y plant, sydd yn ei dro yn codi diddordeb y plant ac mae’n her meddwl am strategaethau bob blwyddyn a fydd yn ddiddorol i’r plant.

Dw i eisiau dweud mod i wedi derbyn cymorth di amod Cymdeithas Gymraeg Esquel ac Ysgol Gymraeg yr Andes, sydd wedi cael eu cynnwys bob amser yn y dosbarthiadau oherwydd fy mod i wedi cael cymorth y Swyddogion o Gymru yn y dosbarthiadau yn Ysgol 24, yn ogystal ag ymwelwyr sydd eisiau gweld gwaith yr ysgol.

Croeso i bawb; pob amser mae rhywun o Gymru yn dod, bydd y drysau ar agor iddynt ddod i’r dosbarth, ac i gymryd rhan efo beth maen nhw’n gallu cynnig, canu, dawnsio, sgwrsio neu ddrama. Mae’r plant wrth eu boddau ac yn falch o wybod eu bod nhw’n mynychu'r unig ysgol o dan reolaeth y Llywodraeth yn Esquel sydd yn cynnal gwersi Cymraeg.

Ychydig ydy nifer y dosbarthiadau i allu dysgu’r iaith ond dw i’n fodlon gwybod mai fel hyn rydyn ni’n gallu parhau gyda’r iaith a rhannu iaith ein cyndadau a ddaeth o ochr arall Môr yr Iwerydd 151 o flynyddoedd yn ôl ar fwrdd y Mimosa”.

**ARGYMHELLION 2015 : Adroddiad Cynnydd**

1) **Plant. Cefnogi datblygiadau cynradd holl bwysig yn y Dyffryn ac yn Yr Andes. Yn ystod 2016 bydd arbenigwraig ym maes cynradd yn y Dyffryn er mwyn cynorthwyo Ysgol Gymraeg Gaiman.**

*Fel y gwelir oddi wrth y tablau data ar dudalennau xxxx, bu cynnydd da yn niferoedd y sector Cynradd eleni, yn bennaf yn dilyn y penderfyniad strategol i'w gynorthwyo yn benodol ar draws y Dalaith.*

2) **Cyllid. Soniwyd yn argymhellion adroddiad blynyddol 2013 am y sefyllfa argyfyngus o ran diffyg cyllid i'r Cynllun. Nid yw'r sefyllfa wedi gwella. Ers 10 mlynedd neu fwy mae'r Cynllun yn derbyn yr un math o arian i weithio mewn gwlad lle mae chwyddiant oddeutu 30%. Mae'n wyrthiol bod y niferoedd yn cynnal cystal wrth ystyried hynny, ond ni fydd parhad yn y cynnydd oni bai bydd rhagor o gyllid ar gael er mwyn cynnig cyflog byw i swydogion o Gymru fynd draw yno ac i dalu ffî rhesymol i'r holl diwtoriaid lleol.**
**Ar hyn o bryd, nid oes modd i'r Swyddogion Datblygu wasanaethu cymunedau fel Madryn a Comodoro Rivadavia'n foddhaol oherwydd yr holl weithgareddau sy'n bodoli eisoes yn y Dyffryn. Mae modd i'r Cynllun ymestyn ac ehangu darpariaeth yn yr ardaloedd hynny ond bydd angen swyddog arall. Am swm cymharol fach byddai modd gwneud gwahaniaeth mawr i ddyfodol y Gymraeg yn Y Wladfa.**

*Yn anffodus, ni fu unrhyw newid yn sefyllfa'r cyllid yn ystod 2016. O'r herwydd, nid oedd yn bosib ehangu ar y ddarpariaeth yn ystod y flwyddyn. Collwyd nifer o diwtoriaid profiadol eleni oherwydd iddynt dderbyn gwaith mwy proffidiol mewn sefydliadau eraill. Er yr holl annsicrwydd - gyda'r penderfyniad i ymadael â'r Gymuned Ewropeaidd yn un ohonynt – y sefyllfa ddelfrydol o ran cynllunio tymor hir y gwaith ym Mhatagonia byddai cael trefniant cyllido am y tair blynedd nesaf.*

3) **Cymraeg i Oedolion. Ers targedu'r maes pwysig hwn yn strategol mae niferoedd wedi codi'n sylweddol. Mae'r holl ddathliadau yn ystod 2015 wedi denu cynulleidfa newydd ac wedi atgoffa hen gynulleidfa o'u gwreiddiau. O ganlyniad i hyn ac ymdrechion strategol y Cynllun mae mwy o oedolion yn dysgu eleni nag erioed o'r blaen ac am y tro cyntaf safodd dysgwyr arholiadau CBAC ar bob lefel. Fodd bynnag, nid da lle gellir gwell. Mae angen sicrhau bod dysgwyr yn symud o lefel i lefel yn arbennig yn 2016 rhwng Cyn-fynediad a Mynediad ( Wlpan 1) ac o Ganolradd i Uwch.**


Yn anffodus, ni lwyddwyd i gynnal ffigyrau Oedolion ar yr un lefel â'r llynedd. Roedd blwyddyn fawr Dathlu'r 150 yn un nodedig ac yn llwyddianus ar sawl cyfrif. Llwyddodd Cyrisau Blasu 2015 i ddenu niferoedd iachus o oedolion ar gyfer lefel Mynediad eleni, ond yn anffodus ni chafwyd yr un llwyddiant gyda'r lefelau eraill. Gwelwyd llai o arbenigedd dysgu ym maes Cymraeg i Oedolion ymhlith y Swyddogion Datblygu hefyd eleni.

4) **Arsylwi ac Ysgoloriaethau Dysgu.Yn 2016 bydd un athrawes yn arsylwi mewn ysgolion cynradd yng Nghymru ac mae angen parhau gyda'r gwaith hwn. Mae angen hefyd sicrhau bydd cyllid i anfon dysgwyr ar gyrsiau dwys yng Nghymru.**

Calonogol iawn oedd llwyddo i gynnig cymorth i 2 fyfyriwr o'r Wladfa fynychu Cwrs yr Haf Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd ar lefel Canolradd ac Uwch, ond, oherwydd diffyg yn y cyllid, ni lwyddwyd i anfon neb i arsylwi.

**5) Partneriaethau. Mae angen arbenigedd addysgol ac adnoddau yn y sector cynradd er mwyn sicrhau llwyddiant yr ysgolion newydd. Dim ond trwy greu partneriaethau strategol fydd modd cyflawni hynny.**

Bu trafodaethau gyda Prifysgol Cymru y Drinod Dewi Sant Caerfyddin ynglŷn ag arbenigedd addysgol ac adnoddau Cynradd yn ystod 2015. Parhawyd, a datblygwyd y trafodaethau hynny yn ystod 2016. Y gobaith yw y gellir mynd â'r maen i'r wal gyda'r cynlluniau cyffrous yma yn ystod 2017. Eleni hefyd, dechreuwyd trafodaethau gyda Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, yr Urdd, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Caerdydd. Y gobaith yw datblygu partneraethau mwy strategol gyda'r sefydliadau yma er budd y Cynlllun Cymraeg.
Gweler hefyd 'Argymhellion 2016'.



**Argymhellion 2016**

1 Bydd y Cynllun yn dathlu pen-blwydd yn 20 oed yn 2017.
Dyma gyfle da felly i edrych o'r newydd ar beth rydym yn ceisio ei gyflawni ac ar y dull o'i weithredu.
Byddwn felly yn cynnal arolwg o waith a strwythur y Cynllun yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn nesaf gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith erbyn mis Gorffennaf.

2 Cyllid. Soniwyd mewn sawl adroddiad blynyddol am sefyllfa fregus y cyllid. Hyd yma, yn anffodus, does dim wedi newid. Ers cyfnod o ryw 10 mlynedd, mae'r Cynllun wedi derbyn yr un math o arian, ac oherwydd bod chwyddiant yr Ariannin yn rhyw 30%, mae gwerth yr arian hynny'n crebachu'n flynyddol. Mae'r Cynllun wedi cyflawni cymaint gydag arian bach iawn ar hyd y blynyddoedd ac mae'n rhyfeddol bod y niferoedd wedi parhau i wella.
Nid oes mod i'r cynnydd yma barhau oni bai bod lefel y cyllid yn gwella, er mwyn gallu talu'n haeddiannol i'r Swyddogion Datblygu o Gymru a'r tiwtoriaid lleol. Nid oes modd chwaith cynnig darpariaeth gynhwysfawr mewn ardaloedd fel Comodoro na Phorth Madryn.
Dim ond trwy gyflogi mwy Swyddogion mae modd gwella a datblygu. Am swm gymharol fechan, byddai modd gwneud cymaint o wahaniaeth i'r ddarpariaeth yn y Wladfa.

3 Mae'r cynnydd yn y niferoedd o flwyddyn i flwyddyn yn rhywbeth i'w ddathlu. Tra bydd niferoedd yn parhau'n bwysig, bydd y pwyslais mwyaf yn ystod 2017 ar Ansawdd. Bydd angen felly ehangu cynllun Hyfforddiant Tiwtoriaid ac Athrawon er mwy gwireddu'r nod o wella ansawdd.

4 Gwella a chynyddu nifer dosbarthiadau Oedolion, gan ganolbwyntio ar y dosbarthiadau Uwch.

5 Cynllunio a gweithredu cynllun marchnata newydd ar draws y Dalaith er mwyn denu mwy o rieni plant yr ysgolion dwyieithog i ddosbarthiadau oedolion.

6 Cynnal a chryfhau'r sector Cynradd wrth barhau i gefnogi'r tair Ysgol Gynradd ddwyieithog

7 Cydweithio gyda Chanolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol Cymru i addasu cyrsiau oedolion newydd ar gyfer y Wladfa erbyn 2018.

8 Dechrau defnyddio'r ystafelloedd dosbarth newydd Canolfan Esquel.

9 Creu partneriaethau strategol newydd - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yr Urdd a Chanolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol er mwyn cyfoethogi'r Cynllun.

10 Gweithio i gynnal mwy o weithgareddau anffurfiol Cymraeg er mwyn cryfhau'r gwaith o gymdeithasoli'r iaith yn y gymuned.




**Clwb y Ddraig fach, Trelew**